SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Pecyn Gwaith i Ysgolion SSCE Cymru



## 1: Y Lluoedd Arfog yng Nghymru


Y Lluoedd Arfog yng Nghymru 4
Ranciau Y Lluoedd Arfog: Pecking order 9
Cylchoedd adleoli ac enghreifftiau 10
Termau/geirfa y Lluoedd Arfog 11
Profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog 13
Cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog 13
Gwasanaethau Lles 14
Cyfamod y Lluoedd Arfog 15
Cymorth ac Adnoddau 16


## 2: Profiadau plant y Lluoedd Arfog


Diffiniad o blentyn y Lluoedd Arfog 19
Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog 20
Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog 20
Effaith adleoli 21
Effaith Symud 25
Effaith pontio 28
Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog 29
Cymorth ac Adnoddau 30


## 3: Addysg yng Nghymru


Addysg 34
Addysg yng Nghymru 37
Cymharu Addysg 38
Yr iaith Gymraeg mewn ysgolion 41
Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor 43
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 43
Cymorth ac Adnoddau 45


## 4: Data plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol


Data plant y lluoedd arfog yng Nghymru 48
Derbyniadau Ysgol 50
Trosglwyddo data cofnodion ysgol 52
Cymorth ac Adnoddau 53


## 5: Iechyd meddwl a lles


Iechyd meddwl a lles 56
Ymyraethau a chefnogaeth 57
Darpariaeth lles awdurdodau lleol 58
Darpariaeth lles ysgolion 59
Cymorth ac Adnoddau 62


## 6: Darpariaeth Ieuenctid


Beth yw darpariaeth ieuenctid? 66
Pam bod darpariaeth ieuenctid yn bwysig i blant milwyr? 68
Darpariaeth Ieuenctid yng Nghymru 69
Cymorth ac Adnoddau 70


## 7: Cyllid


Cyllid addysg gynhwysol yng Nghymru 73
Dim Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog yng Nghymru 73
Cyllid ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru 74
Cyllid SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru 75
Cymorth ac Adnoddau 76


## 8: Ymchwil a thystiolaeth


Tystiolaeth SSCE Cymru 79
Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol 81
Cynghrair Datblygu Plant y Lluoedd Arfog (SCiP) 81
Tystiolaeth ar effaith o fod yn Blentyn y Lluoedd Arfog 83
Cymorth ac Adnoddau 84

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Y Lluoedd Arfog yng Nghymru







# Cynnwys

## Pecyn Gwaith i Ysgolion: Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Y Lluoedd Arfog yng Nghymru 5
Ranciau Y Lluoedd Arfog: Pecking Order 9
Cylchoedd adleoli ac enghreifftiau 10
Termau/geirfa y Lluoedd Arfog 11
Profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog 13
Cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog 13
Gwasanaethau Lles 14
Cyfamod y Lluoedd Arfog 15
Cymorth ac Adnoddau 16

*"3.2 Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r tair her mwyaf sylweddol maent yn eu wynebu o ran cefnogi plant y Lluoedd Arfog, dywedodd 31% o ysgolion: Deall ffordd y fyw y Lluoedd Arfog."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"Mae bod yn rhan o'r Fyddin fel bod yn rhan o deulu, teulu enfawr sydd yn bodoli ar hyd a lled y DU, rhannau o'r Almaen ac Afghanistan."*

**Ieuan, un o blant y Lluoedd Arfog**

Mae'r Lluoedd Arfog yn cyflawni tasgau a benderfynir arnynt gan Lywodraeth Prydain, er mwyn amddiffyn buddiannau'r DU. Gallai'r tasgau yma gynnwys gwasanaeth dramor fel rhan o luoedd Sefydliad Cytuniad Gogledd yr Iwerydd (NATO) neu'r Cenhedloedd Unedig (UN), neu unrhyw adleoliad aml genedlaethol arall. Mae aelodau y Lluoedd Arfog yn gweithio o gwmpas y byd, yn hyrwyddo heddwch, darparu cymorth, taclo smyglwyr cyffuriau, darparu diogelwch ac ymladd yn erbyn terfysgaeth.






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Mae personél y Lluoedd Arfog wedi eu lleoli mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru, ac mae yna hefyd Luoedd Wrth Gefn a chyn filwyr/cyn bersonél y Lluoedd Arfog.

## Y Lluoedd Arfog yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Pencadlys Brigâd 160 (Cymru), ysgol frwydro'r Milwyr Traed - Aberhonddu | Y Fyddin |
| Catrawd Arwyddion 14 (Rhyfela Electronig) - Baracs Cawdor, Hwlffordd | Y Fyddin |
| Bataliwn 1 y Reifflau - Baracs Beachley, Casgwent | Y Fyddin |
| Baracs Y Maendy, Ysbyty Maes 203 | Y Fyddin |
| Catrawd 104 y Magnelwyr Brenhinol - Baracs Rhaglan | Y Fyddin |
| Peirianwyr Brenhinol Sir Fynwy (Milisia) | Y Fyddin |
| RAF Y Fali | RAF |
| MOD Sain Tathan | RAF |
| HMS Cambria | Y Llynges |






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Cymuned y Tri Llu

Er nad yw amddiffyn wedi ei ddatganoli i Gymru a bod hynny yn rhan o polisi Llywodraeth y DU, mae trefniadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gallu cydweithio â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ac aelodau'r Lluoedd Arfog ar bob lefel yng Nghymru.

Mae'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cynnwys personél sydd yn gwasanaeth yn y tri Llu: Y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol (RAF). Y lluoedd amlycaf yng Nghymru yw'r Fyddin a'r RAF, oherwydd nifer y lleoliadau yma yng Nghymru. Mae yna hefyd nifer o leoliadau Lluoedd Wth Gefn a Chadetiaid ar draws Cymru.

### Y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol

HMS Cambria yw Uned Lluoedd Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, yng Nghaerdydd. Mae Adran Tawe yn uned ategol i HMS Cambria yn Abertawe. Bydd yna hefyd ychydig o bersonél Y Llynges wedi eu lleoli gyda Lluoedd Arfog eraill, a bydd nifer o aelodau'r Llynges yn byw yng Nghymru.

**I gael mwy o wybodaeth am y Llynges Frenhinol, ewch i www.royalnavy.mod.uk**







### Y Llu Awyr Brenhinol (RAF)

Mae yna ddwy orsaf yng Nghymru: RAF Y Fali ac MOD Sain Tathan. Mae RAF Y Fali ar Ynys Môn yn gartref i Ysgol Hyfforddi Hedfan Rhif 4, sydd yn gyfrifol am hyfforddi y genhedlaeth nesaf o beilotiaid ymladd o'r radd flaenaf. Mae criw awyr hefyd yn cael eu hyfforddi yn RAF Y Fali ar gyfer gweithrediadau ar fynyddoedd a môr o gwmpas y byd. Mae RAF Y Fali hefyd yn gartref i'r Gwasanaeth Achub Mynydd, yr unig wasanaeth chwilio ac achub parod bob tywydd ac ased rheoli ôl-ddamwain sydd gan y Lluoedd Arfog.

Mae MOD Sain Tathan yn safle MOD mawr yng Nghymru, wedi ei leoli ym Mro Morgannwg. Yma mae technegwyr peirianneg ar y tir y RAF yn cael eu hyfforddi. Mae'n gartref i Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4, sydd yn darparu hyfforddiant parhaus i bersonél orr tri Llu a staff sifiliaid MOD. Mae Sain Tathan hefyd yn gartref i Sgwadron Awyr Prifysgol Cymru.

**I gael mwy o wybodaeth ar weithgareddau RAF yng Nghymru, ewch i www.raf.mod.uk/ neu www.raf.mod.uk/rafvalley/**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.




## Y Fyddin Brydeinig

Pencadlys Brigâd 160 (Cymru), yn Aberhonddu, sydd yn arwain gwaith y tri Llu ar draws Cymru gyfan. Dyma gysylltiad y Fyddin â llywodraeth a chymdeithas yng Nghymru, gan gefnogi'r Undeb, siapio'r amgylchedd recriwtio a darparu cefnogaeth gadarn, a dyma' pencadlys tactegol ar gyfer gweithrediadau'r DU yng Nghymru.

Mae canolfannau a chyfleusterau hyfforddi eraill yn cynnwys:

- Catrawd Arwyddion 14 (Rhyfela Electronig)
- Peirianwyr Brenhinol Sir Fynwy (milisia)
- Bataliwn 3 (Y Cymry Brenhinol)
- Catrawd 157 (Cymru) Corfflu Logisteg Brenhinol (RLC)
- Corfflu Hyfforddi Swyddogion Prifysgol Cymru (UOTC)
- Ysbyty Maes 203
- Ysgol Frwydro Milwyr Traed
- Bataliwn 104 Peirianwyr Mecanyddol Trydanol Brenhinol (REME)
- Catrawd 104 y Magnelwyr Brenhinol
- Bataliwn 1 Y Reifflau.

**I gael mwy o wybodaeth am y Fyddin yng Nghymru, ewch i www.army.mod.uk/who-we-are/formations-divisions-brigades/regional-command/hq-160th-welsh-brigade/**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.



## Lluoedd Wrth Gefn

Mae yna dros 2,200 o luoedd wrth gefn yng Nghymru. Maent yn perfformio rolau allweddol gyda'r Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol, Y Fyddin Wrth Gefn a'r Llu Awyr Brenhinol Ategol (RAF). Daw'r lluoedd wrth gefn o gefndiroedd amrywiol. Maent yn rhoi eu hamser e hunain i hyfforddi a gwasanaethu ochr yn ochr â phersonél arferol yn y Lluoedd Arfog. Maent yn cyflawni rolau gwahanol yn eu hunedau wrth gen perthnasol, a'r gofyniad blynyddol yw ychydig llai na 30 diwrnod. Yn gyfnewid am hynny, byd y lluoedd wrth gefn yn derbyn cyflog a threuliau am hyfforddiant fin nos ac ar benwythnosau, a chyflog cywerth i'w ranciau arferol ar adleoliadau.

**I gael mwy o wybodaeth am weithgareddau'r Lluoedd Wrth Gefn, ewch i www.wales-rfca.org/reserves/**

## Cadetiaid

Mae yna dros 5000 o Gadetiaid yng Nghymru sydd yn mwynhau hwyl gyda ffrindiau mewn dros 200 o leoliadau ar hyd a lled y wlad. Mae sefydliadau cadetiaid yn cyfuno gwaith ieuenctid a hyfforddiant ar thema milwrol a gweithgareddau yn y gymuned. Maent yn gwella iechyd y Cadetiaid drwy amrywiaeth o weithgareddau awyr agored a chwaraeon. Gall pobl ifanc rhwng 12 a 18 oed fod yn rhan o'r Cadetiaid, yn ddibynnol ar y sefydliad maent yn ymuno ag ef.

**I gael mwy o wybodaeth am y Cadetiaid yng Nghymru, ewch i www.wales-rfca.org/cadets/**

## Gwasanaeth Gwarchodlu yr MOD

Mae Gwasanaeth Gwarchodlu yr MOD (MGS) yn darparu gwasanaethau gwarchod heb arfau mewn dros 100 o safleoedd ar draws ystâd MOD yng Nghymru, Yr Alban a Lloegr. Mae'r MGS yn cyflogi tua 2,000 o staff gweithredol a chynorthwyol (pob yn un weision sifil), a reolir gan ei Brif Swyddfa yn MOD Lyneham yn Wiltshire.

**I Gael mwy o wybodaeth am yr MGS yng Nghymru, ewch i www.gov.uk/guidance/mod-guard-service**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Ranciau Y Lluoedd Arfog: Pecking Order

| | Y Llynges Frenhinol | Môr-Filwyr Brenhinol | Y Fyddin | Y Llu Awyr Brenhinol |
|---|---|---|---|---|
| ★★★★ | Llyngesydd | Cadfridog | Cadfridog | Prif Farsial y Llu Awyr |
| ★★★ | Is-Lyngesydd | Is-Gadfridog | Is-Gadfridog | Marsial y Llu Awyr |
| ★★ | Ôl-Lyngesydd | Uwchfrigadydd | Uwchfrigadydd | Is-Farsial y Llu Awyr |
| ★ | Comodor | Brigadydd | Brigadydd | Comodor y Llu Awyr |
| | Capten | Cyrnol | Cyrnol | Capten Grŵp |
| | Is-Gapten | Is-Gyrnol | Is-Gyrnol | Cadlywydd Adain |
| | Is-Gomander | Uwch Gapten | Uwch Gapten | Arweinydd Sgwadron |
| | Lefftenant | Capten | Capten | Awyr-Lefftenant |
| | Is-Lefftenant | Lefftenant | Lefftenant | Swyddog Hedfan |
| | Canol-Longwr | Is-Lefftenant | Is-Lefftenant | Peilot-Swyddog |
| | Swyddog Gwarantedig 1 | Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 | Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 | Swyddog Gwarantedig |
| | Swyddog Gwarantedig 2 | Swyddog Gwarantedig Dosbarth 2 | Swyddog Gwarantedig Dosbarth 2 | |
| | Prif Is-Swyddog | Sarsiant Baner | Sarsiant Staff | Sarsiant Hedfan |
| | Is-Swyddog | Sarsiant | Sarsiant | Sarsiant |
| | Pen-Llongwr | Corporal | Corporal | Corporal |
| | | Is-Gorporal | Is-Gorporal | Uwch-Awyrluyddwr |
| | Llongwr Abl | Môr-Filwr | Preifat | Awyrluyddwr |

Mae sêr yn cael eu dyrannu i'r safleoedd mwyaf uchel ar draws.

www.civilservant.org.uk/library/armed_forces_ranks.pdf

# Cylchoedd adleoli ac enghreifftiau

*"Mae siarad drwy Skype yn iawn, ond weithiau rydych eisiau cwtsh pan fo Dada i ffwrdd."*

**Georgia, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Nid ydym wedi symud oddi yma ers amser oherwydd rwyf yn gwneud fy TGAU, felly aeth i Fryste. Aethom i'w weld yn achlysurol a daeth yn ôl ar benwythnosau, er ei fod bedair awr i ffwrdd."*

**Harry, un o blant y Lluoedd Arfog**

Gall personél y Lluoedd Arfog, oherwydd natur eu rôl, fod yn absennol o gartref y teulu am gyfnodau sylweddol, naill ai ar ddyletswydd gweithredol neu oherwydd eu bod wedi penderfynu rhoi sefydlogrwydd i'w teulu drwy gymudo'n wythnosol i'w gweithle.

Mae hynny yn achosi heriau ychwanegol nad yw'r rhan fwyaf o deuluoedd sifiliaid yn cael profiad ohonynt. Gall y rhain gynnwys hyd amser yr absenoldeb, a phatrymau absenoldeb a'r rhesymau am hynny.

## Diffiniadau o fathau o absenoldeb

- **Adleoli:** gall personél y Lluoedd Arfog a adleolir gynnwys unigolyn neu grŵp o bobl, a gallai adleoli fod o un noson i hyd at naw mis neu fwy, weithiau heb unrhyw gysylltiad â'r cartref. Efallai byddant yn cael eu hadleoli ar wasanaeth gweithredol yn y DU, dramor ne ar y môr.
- **Hyfforddiant:** gall personél y lluoedd arfog gael eu hadleoli ar gyrsiau hyfforddi y Lluoedd Arfog, all bara o wythnos i naw mis.
- **Ymarferion:** gall personél y lluoedd arfog gael eu hadleoli i ymgymryd â gweithgareddau er mwyn dysgu sgiliau a strategaethau newydd sydd yn gysylltiedig â'u rôl. Gall hynny amrywio o ran hyd a gall fod fel unigolyn neu grŵp.

Fel yn achos symudedd yn y Lluoedd Arfog, cynllunio adleoliadau er mwyn galluogi i deuluoedd a phersonél baratoi yw'r nod bob amser, ond weithiau, yn unol ag anghenion y Gwasanaeth, gall adleoli ddigwydd yn gyflym iawn (llai na 24 awr) a heb unrhyw rybudd.

## Mae gwahanol Wasanaethau yn symud yn wahanol

- **Y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol:** mae personél yn debygol o fyw mewn un man am gyfnodau hirach oherwydd eu bod yn tueddu i flaenoriaethu sefydlogrwydd y teulu, ond efallai y byddant yn symud eu teuluoedd wrth i aseiniadau newid.
- **Y Llu Awyr Brenhinol (RAF):** mae personél yn tueddu i symud yn unigol wrth i'w gyrfa ddatblygu neu er mwyn bodoli anghenion y Gwasanaeth.
- **Y Fyddin:** mae personél yn tueddu i symud mewn grwpiau (catrawdau/bataliynau/sgwadronau).

Weithiau symudir personél ar raddfa fawr, pryd y bydd nifer o bobl yn symud ar yr un pryd. Fel arfer mae hynny o ganlyniad i gau safle neu newid seilwaith amddiffyn.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Termau/geirfa y Lluoedd Arfog

## Diffiniadau gwahanol (yn ôl y Gwasanaeth)

| Y Llynges Frenhinol (RN) /Môr-filwyr Brenhinol (RM) | Y Fyddin Brydeinig | RAF | Diffiniad |
|---|---|---|---|
| Llongau, Unedau neu Sefydliadau | Garsiwn | Gorsaf | Enw a roddir i gymuned MOD, yn cynnwys adeiladau a chyfleusterau y Lluoedd Arfog. |
| Aseiniad/Penodiad | Postio | Aseiniad | Anfonir personél i un o leoliadau eraill y Lluoedd Arfog er mwyn gwasanaethu'r uned honno. |
| Adleoli/Patrôl (llong danfor) | Adleoli | Adleoli | Cyfnodau pan fo Personél y Gwasanaeth i ffwrdd ar wasanaeth heb eu teuluoedd. |
| RM: Parti Ôl, Llongau Wyneb a Llongau Tanfor: criw ar y bwrdd/criw oddi ar y bwrdd, Cangen Fflyd Awyr: Staff Sgwadron | Gweithrediad Ôl | Parti Ôl | Corff bach o bersonél a adewir ar ddyletswydd yn ôl adref yn sefydliad y Lluoedd Arfog (safle cartref) tra bod prif gorff y personél yn cael eu hanfon i ffwrdd a daith weithredol. |
| Swyddog Adrannol | Swyddog Lles Uned | Prif Swyddog Sgwadron Rheoli Personél (OC PMS) a Swyddog Gwarant Sgwadron Rheoli Personél (WO PMS) | Swyddog penodedig sydd yn goflau am les personél y Gwasanaeth. |

## Diffiniadau cyffredinol y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Ymarfer | Pan fo personél y Gwasanaeth yn mynd i ffwrdd am wythnos neu ragor i hyfforddi |
| Cyn-adleoli | Y cyfnod o baratoi ar gyfer gadael |
| Adleoli | Mynd i ffwrdd ar adleoliad gweithredol heb eu teuluoedd |
| Symudedd | Symud/ail-leoli yn seiliedig ar anghenion gweithredol |
| Postio Cysylltiedig | Mae personél yn cael eu haseinio i uned arall ac yn mynd â'u cymar/partner a'u teuluoedd gyda nhw i'r lleoliad newydd hwnnw |
| Postio Anghysylltiedig | Mae personél y Gwasanaeth yn mynd i leoliad uned arall ar eu pennau eu hunain, ac yn gadael eu cymar/partner a'u teuluoedd adref |
| Gorffwys ac Adfer (R&R) | Rhoddir amser i ffwrdd i bersonél yn ystod adleoliad/taith weithredol er mwyn caniatáu gorffwys ac adferiad. |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

| | |
|---|---|
| Absenoldeb ar ôl Taith Weithredol (POTL) | Rhoddir amser i ffwrdd i bersonél ar ôl iddynt ddychwelyd o daith weithredol er mwyn caniatáu gorffwys ac adferiad |
| Cyn-filwr | Unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi (HM): (Arferol neu Wrth Gefn) neu Forwyr Masnachol sydd wedi gwasanaethu mewn gweithrediadau y Lluoedd Arfog a ddiffiniwyd yn gyfreithiol. |
| Gadawyr y Gwasanaeth | Yn y broses o adael y Lluoedd Arfog |
| Canolfan Anafiadau a Thosturi ar y Cyd (JCCC) | Strwythur sefydliadol yr MOD sydd yn darparu canolbwynt ar gyfer gweinyddu anafiadau a hysbysiadau a cheisiadau ar gyfer teithio tosturiol (ar gyfer y personél sydd yn gwasanaethu dramor) mewn perthynas ag aelodau Lluoedd Arfog Prydain. |
| Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO) | Adran yr MOD sydd yn gyfrifol am  ddarparu holl seilwaith safleoedd y Lluoedd Arfog ac am ddarparu llety i deuluoedd y Lluoedd Arfog (gweler SFA) |
| Llety Teuluoedd y Lluoedd Arfog (SFA)/ Llain/Barics/Tu ôl i'r weiren | Mae MOD yn darparu tai i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, allai fod wedi ei leoli mewn uned y Lluoedd Arfog neu yn y gymuned leol. |
| Sifiliaid | Personél nad ydynt yn y Lluoedd Arfog |
| Mes | Ardal ble mae personél y Lluoedd Arfog yn cymdeithasu, bwyta a weithiau yn byw |
| MOD90 | Cerdyn Adnabod Milwrol (ID) |
| HIVE/Swyddog Gwybodaeth Gefnogol i Deuluoedd a Phobl Gwasanaeth y Llynges | Gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio a ddarperir gan y Gwasanaeth Sifil i gymuned y Lluoedd Arfog. Fe'i defnyddir gan gymuned y Lluoedd Arfog fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad mewn perthynas â llety, ysgolion, darpariaeth leol a gwybodaeth mewn perthynas â lleoliad y penodiad nesaf. |

*"Mi faswn i'n hoffi gwybod mwy am y llefydd y mae fy rhiant yn mynd iddyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud.*





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog

*"Nid yw'n fywyd drwg. Mae pobl eraill yn dweud, 'Rydych yn symud o gwmpas bob ychydig o flynyddoedd, nid oes gennych ffrindiau sefydlog.' Yn fy llygaid i mae gennych gannoedd o ffrindiau mewn gwahanol lefydd. Rydych yn cael mynd dramor. Rwyf yn symud i Gyprus. Mae'n fendigedig yno. Rwyf yn cael cyfarfod â gwahanol bobl a gwneud gwahanol bethau."*

Chloe, un o blant y Lluoedd Arfog

## Teuluoedd a lolir heb eu huned

Mae rhai teuluoedd yn penderfynu peidio â symud gyda phersonél y Lluoedd Arfog ac aros yng nghartref y teulu. Yna bydd personél y Lluoedd Arfog yn ail-leoli i'w uned neu ganolfan yn ystod yr wythnos. Efallai byddant yn gweld eu gilydd ar benwythnosau neu ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae'r teulu sydd yn aros yng Nghymru yn deulu y Lluoedd Arfog. Weithiau gelwir hynny yn "benwythnosa" yn y Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol neu'n "wasgarog" yn y RAF.

## Teuluoedd a dau riant yn y Lluoedd Arfog

Nid yw'n anghyffredin i ddau riant fod yn gwasanaethu, weithiau yn yr un llu. Ar adegau prin bydd yna achosion pan fo'r ddau yn cael eu hadleoli ar gyfer gweithrediad, ymarfer neu hyfforddiant. Efallai y byddant yn dibynnu ar deulu estynedig er mwyn eu helpu gyda threfniadau gofal plant. Anogir personél y Lluoedd Arfog i sefydlu cynllun gofal ar gyfer eu dibynyddion.

## Teuluoedd rhieni sengl

Bydd raid i deuluoedd un rhiant yn y Lluoedd Arfog ddelio hefyd â'r her pan fo'r rhiant yn cael ei adleoli ar gyfer gweithrediad, ymarfer neu hyfforddiant. Efallai y byddant yn dibynnu ar deulu estynedig er mwyn eu helpu tra eu bod i ffwrdd.

# Cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog

Mae nifer o gyn bersonél y Lluoedd Arfog wedi dewis setlo yng Nghymru ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Mae personél yn gadael y Lluoedd Arfog am nifer o resymau. Nid yw'r ffaith nad yw cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog mwyach yn golygu nad yr effeithir arnyn nhw a'u teuluoedd gan y profiadau a gafwyd tra'n gwasanaethu. Am y rheswm hwnnw, mae diffiniad SSCE Cymru (ac eraill) yn cwmpasu plant cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog am hyd at chwe blynedd ar ôl gadael y Lluoedd Arfog.



Nid yw rhai cyn bersonél y Lluoedd Arfog yn y DU yn diffinio eu hunain fel "cyn filwyr".

Mae gan holl gyn bersonél y Lluoedd Arfog hawl i gael cerdyn ID Cyn filwyr (www.gov.uk/government/news/new-veterans-id-cards-rolled-out-to-service-leavers) er mwyn nodi eu gwasanaeth i'r Lluoedd Arfog.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Gwasanaethau Lles




Mae swyddogion lles wedi eu lleoli yn mhob prif safle'r Fyddin yng Nghymru ac maent yn gyfrifol am les personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd pan fo angen. Efallai bydd gwasanaethau lles yn ymwneud â theuluoedd y Lluoedd Arfog er mwyn eu cefnogi ynghylch ystod o faterion eang, megis tai ac iechyd, fydd efallai yn arwain at oblygiadau i blentyn y Lluoedd Arfog a'i addysg. Hefyd dylai swyddogion lles allu darparu gwybodaeth leol mewn perthynas ad adleoliadau a gynllunnir a symudiadau mawr a gynllunnir.

## HIVEs

Mae gwasanaethau gwybodaeth HIVE ar gael i holl aelodau cymuned y Lluoedd Arfog, sydd yn darparu cymorth ar ffurf gwybodaeth i aelodau'r Lluoedd Arfog arferol, y Lluoedd Wrth Gefn a'u teuluoedd a'u dibynyddion. Mae ystod eang o wybodaeth ar gael, sydd yn canolbwyntio ar wybodaeth am ail-leoli, gwybodaeth am yr ardal leol, addysg, llety, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant, gofal plant a theithio.

Mae HIVE yn ffordd dda o ddosbarthu gwybodaeth i gymuned y Lluoedd Arfog yn lleol, drwy eu blogiau, rhestrau e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

## Cymorth i Bersonél

Mae staff Cymorth Personél yn darparu gwasanaethau lles arbenigol, hygyrch, annibynnol, cyfrinachol a phroffesiynol i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ynghylch unrhyw anhawster personol neu deuluol, a thrwy hynny atgyfnerthir cydnerthedd cymuned y Lluoedd Arfog.

Efallai bydd cymorth yn cael ei ddarparu mewn meysydd megis cam-drin domestig, diogelu plant ac oedolion, galar, anawsterau mewn perthnasoedd, rheoli straen a gorbryder, lles emosiynol a chyfeirio.

## Cymorth yn y Gymuned

> ***"Rydym bob amser wedi bod yn ymwybodol ein bod yn ysgol ger Sain Tathan, ac nid oes cysylltiadau wedi bodoli, ac rydym wedi gwneud gwir ymdrech dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r ddarpariaeth a gweld sut y gallwn wella'r cysylltiadau cymunedol hynny."***
>
> **Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr**

Pwrpas y tîm Cymorth yn y Gymuned/swyddogion Datblygu Cymunedol yw cefnogi cydnerthedd yn y gymuned drwy greu amrywiaeth o brofiadau hwyliog, cadarnhaol a diogel i blant, pobl ifanc, teuluoedd a phersonél y Lluoedd Arfog.

Mae gwneud pethau gyda'n gilydd ac ;n gilydd yn bwysig yn y gymuned. Mae'r ddarpariaeth yma yn debygol o gynnwys canolfannau cymunedol, canolfannau ieuenctid a phrosiectau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod rhai gwyliau ysgol. Mae Cymorth yn y Gymuned hefyd yn gysylltiedig â nifer o asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal leol er mwyn cynnig mynediad at wasanaethau a darparu gwell dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

Mae'r cyfamod yn canolbwyntio ar helpu aelodau cymuned y Lluoedd Arfog i beidio ag wynebu manteision neu anfanteision o ganlyniad i'w gwasanaeth, a'u bod felly yn cael mynediad at wasanaethau y llywodraeth a gwasanaethau masnachol a chynhyrchion fel unrhyw ddinasyddion eraill.

I gael mwy o wybodaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog, ewch i
[www.armedforcescovenant.gov.uk/support-and-advice/](www.armedforcescovenant.gov.uk/support-and-advice/)

## Awdurdodau Lleol

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i ddelio ac ymatebi anghenion  cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae cyfamod pob cymuned wedi cael ei ddylunio er mwyn bodloni anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn yr awdurdod lleol penodol hwnnw. Bydd bodloni ymrwymiadau'r cyfamod hwnnw yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol, cymdeithasau tai, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Mae gan bob awdurdod Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ac maen rôl a ymgymerir gan aelod etholedig. Pwrpas y rôl yma yw hyrwyddo buddiannau cymuned y Lluoedd Arfog yn yr awdurdod lleol; gweithredu fel un pwynt cyswllt; ac ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog yn lleol er mwyn arenwi materion penodol sydd yn achosi pryder.




*"Cefais gefnogaeth gan LSA yn yr ysgol a nain.*

## Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol

Mae yna rwydwaith o Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol (AFLO) ar draws Cymru a'u rôl yw galluogi i Gyfamod y Lluoedd Arfog gael ei weithredu yn gyson ar draws Cymru. Ar hyn o bryd maent yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny yn cynnwys atgyfnerthu cyfathrebu mewn perthynas â'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ar draws Cymru, a rhoi hyfforddiant ar waith i staff rheng flaen awdurdodau lleol fel y gallant gefnogi anghenion personél y Lluoedd Arfog yn lleol, cyn filwyr/Cyn bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

I gael manylion cyswllt AFLO gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru**.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

### Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae adnoddau sy'n berthnasol iawn i ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog**
**Cyflwyniad: Y Lluoedd Arfog a phrofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Poster: Cymuned y Lluoedd Arfog yn yr ysgol**
**Templed: Holiadur Rhiant/Gofalwr.**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

### Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**. Mae'r astudiaethau achos sydd yn benodol berthnasol i ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- **Ysgol Y Tywyn (Ynys Môn) - Plant y Lluoedd Arfog yn dysgu Cymraeg**
- **Ysgol Uwchradd Aberhonddu (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Swyddog Datblygu Cymunedol (RAF Y Fali, Ynys Môn) - Gweithgareddau a darpariaeth ieuenctid i blant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr (Bro Morgannwg) - Defnydd effeithiol o arian i gefnogi plant y Lluoedd arfog**
- **Ysgol Gynradd Prendergast (Sir Benfro) - Cefnogi plant y Lluoedd Arfog i bontio.**

### Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

ssce CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Profiadau plant y Lluoedd Arfog







# Cynnwys

**Pecyn Gwaith i Ysgolion: Profiadau plant y Lluoedd Arfog**

Diffiniad o blentyn y Lluoedd Arfog 19

Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog 20

Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog 20

Effaith adleoli 21

Effaith Symud 25

Effaith pontio 28

Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog 29

Cymorth ac Adnoddau 30

*"Roedd yr Almaen yn gyfnod gwirioneddol dda i mi! Daethom yn ôl ym Mlwyddyn 5... rwyf yn cofio gymaint, y marchnadoedd Nadolig ac yn y blaen, yn bwrw eira drwy'r amser, taflu peli eira gyda'r plant Almaenig dros y ffordd."*

**Harry, un o blant y Lluoedd Arfog**

# Diffiniad o blentyn y Lluoedd Arfog

Diffiniad SSCE Cymru o blentyn y Lluoedd Arfog yw:

**Person mae ei riant, neu prif ofalwr, yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd, neu fel rhywun wrth gefn, neu sydd wedi gwneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod 25 mlynedd gyntaf bywyd y person hwnnw.**

Mae'r diffiniad o blentyn y Lluoedd Arfog yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ond mae hynny bob amser yn canolbwyntio ar gefnogi plant personél y Lluoedd Arfog.





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Bod yn blentyn y Lluoedd Arfog

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Y pethau da yr wyf yn eu hoffi: rydych yn cael teithio a gweld gwahanol lefydd...yn peth arall da yw gwneud ffrindiau newydd a'r profiad o ddod i adnabod pobl eraill."*

**Shana, un o blant y Lluoedd Arfog**

Gall plant y Lluoedd Arfog ddod ag ystod eang o gryfderau a phrofiadau i gymuned ysgol a bydd wedi cael amrywiaeth o brofiadau dysgu mewn ysgolion blaenorol y gallant eu rhannu.

Efallai eu bod wedi cael profiad y fyw mewn gwledydd eraill, dysgu ieithoedd newydd a chael blas ar ddiwylliannau gwahanol. Mae plant y Lluoedd Arfog yn dod â deinameg newydd i gymunedau. Efallai eu bod wedi cael teithio o gwmpas y byd a bod ganddynt dalentau a sgiliau yn cynnwys dawnsio, celfyddyd, chwaraeon, ieithoedd a drama.

I weld fideos o blant y Lluoedd Arfog yn siarad am eu profiadau, ewch i **brofiadau plant y Lluoedd Arfog ffilm**.

# Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog

*"Pan wyf yn dechrau mewn ysgol newydd, rwyf yn teimlo'n nerfus. Rwyf yn rhoi ychydig o gyngor i'r athro: rhowch eich hun yn eu hesgidiau nhw. Dyna beth wyf yn ei wneud er mwyn gweld sut maent yn teimlo."*

**Mia, un o blant y Lluoedd Arfog**

Gall bod yn rhan o deulu yn y Lluoedd Arfog fod yn brofiad eithriadol fuddiol, ond gall agweddau o ffordd o fyw y Lluoedd Arfog achosi heriau sydd yn effeithio ar addysg plentyn. Gall yr heriau hynny gynnwys:

- Symud ysgol a chartref yn aml
- Gwahanu oddi wrth riant/rhieni yn y Lluoedd Arfog
- Newid i ddeinameg y teulu - yn digwydd yn fynych am wahanol resymau
- Rheoli emosiynau
- Dysgu sut mae delio ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Oedi o ran cefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) o ganlyniad i fethu ag arenwi gofynion
- Anhawster o ran ymrwymo i berthnasoedd gyda chyfoedion, oedolion ac ysgol
- Cymorth iechyd meddwl a lles
- Byw cryn bellter i ffwrdd oddi wrth y teulu estynedig/nain a thaid allai ddarparu cefnogaeth
- Gwneud ffrindiau newydd a gadael ffrindiau blaenorol
- Cadw mewn cysylltiad â theulu/ffrindiau o bell
- Setlo ac ymuno mewn gweithgareddau newydd
- Staff yr ysgol ddim yn deall yr anghenion a'r heriau posibl allai plentyn y Lluoedd Arfog fod yn eu wynebu.

Er y gall amgylchiadau unigol pob plentyn effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol mewn gwahanol ffyrdd, mae yna rai ffactorau cyffredin yn achos plant y Lluoedd Arfog all achosi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar wahanol adegau yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.
Gall hynny fod yn gysylltiedig ag adleoli, symud a phontio.

# Effaith adleoli

**Diffiniad adleoli:** cyfnodau pan fo personél y Lluoedd Arfog yn cael eu hanfod ar wasanaeth gweithredol, naill ai dramor neu yn y DU. Mae "taith" yn cyfeirio ar gyfnod o wasanaeth i ba le bynnag yr anfonir aelod o'r Lluoedd Arfog. Gallai hynny fod yn daith i sefydliad diffiniedig y Lluoedd Arfog (penodiad), taith weithredol dramor neu gyfnod estynedig o hyfforddiant mewn lleoliad arall.

***"Ni allwch stopio eich hun rhag meddwl am hynny. Ni alwch ddweud, 'Na, nid wyf yn meddwl am hynny', oherwydd e yw eich tad. Mae'n anodd gwneud hynny. Rwyf wedi tyfu i fyny yn mynd o un lle i'r llall ac yntau ddim adref drwy'r amser. Rwyf wedi dod arfer â hynny i raddau, ond rwyf yn dal yn ei golli llawn gymaint."***

**Georgia, un o blant y Lluoedd Arfog**

***"Aeth fy nhad i ffwrdd pan oeddwn yn ifanc, roeddwn yn arfer teimlo'n drist ac yn arogli ei ddillad. Wrth i mi fynd yn hŷn, roeddwn yn dod i arfer â hynny. Pan oedd yn dychwelyd roedd yn gyfnod hapus i mi ac roeddem yn arfer cael bwyd da."***

**Ashim, un o blant y Lluoedd Arfog**

***"Yn ystod adleoli, roeddem yn defnyddio Skype ac roedd rocedi yn cael eu tanio atom a larymau yn seinio ac roeddwn yn cymryd arnaf mai larymau tân oeddent. Mae hynny ar ei feddwl ac mae'n cyfeirio at hynny flynyddoedd yn ddiweddarach."***

**Swyddog yn y RAF a rhiant i blentyn y Lluoedd Arfog**

***"3.1 Pan ofynnir beth yw'r tair her fwyaf sylweddol sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog mewn perthynas ag addysg, y tri ateb pennaf a gafwyd gan ysgolion cynradd oedd: Effaith emosiynol gwahanu, yr effaith emosiynol pan fo rhiant/rhieni yn dychwelyd o adleoliad/hyfforddiant, effaith emosiynol yn ystod adleoliad."***

**Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

***"3.1 Mae 85% o'r plant wedi gweld eu rhieni yn mynd i ffwrdd ac wrth siarad am eu profiadau gwnaeth 62% ohonynt sylwadau negyddol am eu hemosiynau (trist, blin) a 50% ohonynt sylwadau negyddol am weld eisiau eu rhieni."***

**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**

***"3.2 Pan ofynnwyd iddynt am y pethau sydd yn eu helpu i ddelio gyda'u hemosiynau/teimladau pan fydd eu rhieni i ffwrdd, siaradodd 42% ohonynt am gefnogaeth ffrindiau neu fydis, a 39% ohonynt am gyfathrebu gyda'r rhiant sydd i ffwrdd."***


**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Profiadau adleoli

Bydd y cylch adleoli o riant yn mynd i ffwrdd ar wasanaeth gweithredol yn ymwneud â meysydd yn y diagram yma. Bydd hyn yr un fath ar gyfer pob Gwasanaeth, ond gall hyd y cyfnod a'r profiadau ym mhob maes fod yn wahanol.




**Cyn-adleoli:** y cyfnod o baratoi ar gyfer gadael a gwahanu. Gall hynny bara am ychydig wythnosau neu fisoedd, yn ddibynnol ar hyd y rhybudd a roddir. Bydd teuluoedd yn dewis delio â hyn mewn gwahanol ffyrdd, a bydd rhai plant yn ymwybodol iawn o'r adleoli sydd i ddod, ac eraill yn ddiarwybod.

**Adleoli:** Mae paratoi i adleoli yn effeithio ar deuluoedd mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n rhwydd i rai plant. Mae'r rhan fwyaf o blant ac oedolion yn debygol o deimlo tristwch.

**Taith:** hyd y cyfnod y bydd yr aelod teulu sydd yn gwasanaethu i fwrdd ar adleoliad. Mae plant y Lluoedd Arfog y debygol o deimlo cymysgedd o emosiynau yn ystod y cyfnod yma. Gall newidiadau mewn ymddygiad fod yn arwydd o sut maent yn delio â'r teimladau yma mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'n debygol y bydd un neu ddau riant yn cael eu hadleoli yn golygu newid i ddeinameg y teulu/cartref, a'r rolau a'r cyfrifoldebau yn newid.

**Absenoldeb o Daith:** Bydd personél y Lluoedd Arfog fydd wedi eu hadleoli am fwy na phedwar mis yn cael ychydig o amser i ffwrdd yn ystod eu hamser oddi cartref. Gall hynny ychwanegu mwy o broblemau i blant mewn perthynas ag aduno a gwahanu, a gall arwain at geisiadau i fod yn absennol yn ystod y tymor ysgol.

**Diwedd Taith:** yn aml mae dychwelyd o daith yn hirddisgwyliedig, yn amser cyffrous o newid eto a gall fod yn heriol a gala chosi straen. Efallai bod pob un yn y teulu wedi delio â'r gwahanu mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n naturiol bod y rhai sydd yn disgwyl am ddychweliad i deimlo emosiynau cymysg.


**Ar ôl taith:** mae aduniad yn fwy na dim ond digwyddiad unigol; mae'n broses o ailaddasu, ac fel pob proses gall gymryd peth amser. Gall newid arall mewn deinameg y teulu achosi dryswch. Efallai bydd y personél sydd yn dychwelyd o adleoliad wedi cael ei effeithio mewn ffordd negyddol, a galli hynny effeithio ar weddill y teulu.

**Absenoldeb ar ôl Taith Weithredol (POTL):** fel arfer caniateir cyfnod o Orffwys ac Adfer (R&R) i bob aelod sydd wedi ei adleoli, er bod hynny yn dibynnu ar hyd y daith a gofynion y Lluoedd Arfog. Nid yw'n anghyffredin i deuluoedd y Lluoedd Arfog ofyn am absenoldeb yn ystod y tymor ysgol i'w plant yn ystod y cyfnod yma.

Cylchoedd adleoli

- Y Llynges Frenhinol: Gweithrediadau
- Y Fyddin Brydeinig: Gweithrediadau ac adleoliadau
- RAF: Adleoli

## Cylch emosiynol adleoli




I gael mwy o wybodaeth ewch i:

- Y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol adnodd absenoldeb rhiant
- Gwneud synnwyr o'r cylch emosiynol o ddefnyddio

*"Dw i'n poeni beth sy'n mynd i ddigwydd i dad, ydi o mewn perygl o gael ei ladd?*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog mewn perthynas ag adleoli

### Cyn-adleoli

- Emosiynol heriol - rheoli gwahanol deimladau/ ymddygiadau
- Addasu i riant/rhieni yn gadael
- Rhagfynegi emosiynau - straen a phoen
- Dylanwadau ar gyfryngau cymdeithasol a newyddion
- Cynllunio i gyfathrebu â'r rhiant/rhieni a adleolir.
- Dryswch.

### Yn ystod adleoliad

- Emosiynol heriol - rheoli gwahanol deimladau/ ymddygiadau
- Ansicrwydd
- Dryswch.
- Gwahanu - teimlad o golled
- Newidiadau i'r uned deuluol a'r strwythur gofal ac arferion
- Os bydd y ddau riant wedi eu hadleoli - gwarcheidwaid dros dro ac adleoli o bosibl
- Arferion teulu ansefydlog - gofal gan un rhiant neu ofalwr tra bod y rhiant/rhieni i ffwrdd
- Straen a phoen
- Dylanwadau ar gyfryngau cymdeithasol a newyddion
- Cyfathrebu â'r rhiant/rhieni a adleolir.
- Colli digwyddiadau pwysig
- Diffyg ffigwr tadol/mamol neu'r ddau
- Ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ar yr aelwyd tra bod y rhiant/rhieni i ffwrdd
- Delio ag effaith emosiynol ar aelodau eraill y teulu

### Ar ôl adleoli

- Emosiynol heriol - rheoli gwahanol deimladau/ ymddygiadau
- Addasu i riant/rhieni yn dychwelyd
- Newidiadau i'r uned deuluol a'r strwythur gofal ac arferion
- Materion iechyd meddwl a lles o ganlyniad i riant/ rhieni yn dychwelyd
- Galar neu anaf i riant/rhieni o bosibl
- Ailsefydlu perthnasoedd




*"Mae'n anodd dod i arfer efo symud, dydw i ddim yn hoffi pacio drwy'r amser.*





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Effaith Symud

**Diffiniad o symud:** symud/ail-leoli yn seiliedig ar anghenion gweithredol.

*"Cefais fy ngeni yn Yr Almaen yn Awst 2010, yn 2011 aeth dada i Ganada, 2012 aeth i Afghanistan, 2014 i Ynysoedd y Falklands, 2016 yn ôl i Ganada, ac yn Awst 2016 cawsom ein symud i Bulford, 2017 symud i Aberhonddu."*

**Lydia, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Roeddwn yn  Ysgol Episkopi yng Nghyprus. Roedd yn bleserus iawn! pan ddywedodd dad bod raid i ni adael tair neu bedair wythnos ymlaen llaw, roeddwn yn siomedig iawn oherwydd cefais amser gorau fy mywyd yno, roeddwn yn gwybod na allwn wneud unrhyw beth, felly roedd raid i mi ei dderbyn."*

**Ryan, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Rwyf wedi bod i saith ysgol wahanol. Nid wyf wedi aros mewn un ysgol am gyfnod digon hir. Rwyf yn meddwl bod hynny yn effeithio'n fawr oherwydd bod raid i chi ganfod yr amser i wneud ffrindiau newydd a setlo. Mae'n eithaf anodd, ond oherwydd eich bod wedi gwneud hynny llawer o weithiau, rydych yn dod i arfer."*

**Shana, Un o blant y Lluoedd Arfog**

*"2.1 Mae 77% wedi symud i dŷ newydd ac wrth siarad am eu profiadau roedd gan 51% ohonynt sylwadau negyddol am adael eu ffrindiau/teulu. Ar y llaw arall roedd 31% ohonynt wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am gwrdd â phobl newydd/gwneud ffrindiau."*

**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**

*"2.2 Mae 37% wedi byw tramor ac wrth siarad am eu profiadau gwnaeth 28% ohonynt sylwadau cadarnhaol a 7% ohonynt sylwadau negyddol am yr amgylchedd ffisegol (tywydd, anifeiliaid ac ati)."*

**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**

*"2.4 Pan ofynnwyd iddynt am y gweithgareddau sy'n gymorth iddynt wrth symud ysgol, siaradodd 41% ohonynt am gymorth bydi/cyfoed a siaradodd 30% ohonynt am ymweld â'r ysgol newydd a chwrdd ag athrawon newydd.*

**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**






NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Profiadau o symud

Gall fod yn ofynnol i bersonél y Lluoedd Arfog symud i wahanol leoliadau (penodiadau) nifer o weithiau yn ystod eu gyrfa.  Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn annog teuluoedd personél y Lluoedd Arfog i symud gyda'i gilydd, pan fo hynny'n bosibl. Gallai'r symud yma fod wedi ei gynllunio neu gall ddigwydd ar fyr rybudd, ond yn y pen draw gallant arwain at oblygiadau sylweddol i blant y Lluoedd Arfog, allai newid ysgol yn ystod eu gyrfa ysgol.

Gall pob un o deuluoedd y Lluoedd Arfog symud nifer o weithiau yn ystod gyrfa personél sydd yn gwasanaethu. Bydd rhai teuluoedd yn symud o fewn y DU a thramor o bosibl.




**Cyfnod o setlo:** pan fo teulu wedi bod mewn un man am beth amser, fel arfer maent yn teimlo eu bod wedi setlo, yn ddiogel a'u bod yn rhan o rywbeth. Maent yn adnabod yr ardal, mae ganddynt ffrindiau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn lleol. Efallai y byddant yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol. Cyn gynted ag y byddent yn clywed y byddant yn mynd ar benodiad byddant yn mynd drwy broses o ddatgysylltu o'u lleoliad presennol.

**Y cam datgysylltu:** mae hyn fel arfer yn cael ei nodweddu gan dreulio mwy o amser ac egni yn meddwl am ble fydd rhywun yn mynd na ble maent ar hyn o bryd.

**Adleoli:** bydd pontio yn digwydd rhwng unedau'r Lluoedd Arfog pan fônt yn cael eu haseinio. Gall y symud ei hun deimlo fel anhrefn, a bydd bron popeth ym mywyd y teulu yn newid. Amharir ar arferion normal, a gall hynny fod yn anghyfforddus iawn.

**Ailgysylltu:** wrth gyrraedd lleoliad newydd, bydd teuluoedd y Lluoedd Arfog yn brysur yn cyfarfod â phobl newydd ac yn setlo i'r gymuned newydd. Gall teuluoedd y Lluoedd Arfog deimlo cymysgedd o emosiynau cadarnhaol a negyddol.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog mewn perthynas ag symud

## Cyn symud

- Ymdopi ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Sicrhau lle mewn ysgol newydd
- Anhawster o ran ymrwymo i berthnasoedd gyda chyfoedion, oedolion ac ysgol
- Datgysylltu â gwaith/gweithgareddau ysgol presennol

## Wrth symud

- Ymdopi ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Teimlad o golled wrth adael teulu/ffrindiau/ amgylchedd ac amgylchfyd cyfarwydd
- Diffyg cyfnewid gwybodaeth rhwng yr ysgol - hanes yn yr ysgol, anghenion addysgol, lefel cyrhaeddiad
- Teimlo'n ansicr
- Dibyniaeth ar oedolion eraill/brawd neu chwaer neu blant eraill y Lluoedd Arfog.

## Ar ôl symud

- Ymdopi ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Gwahanol ddiwylliant/ieithoedd (o ran addysg ac yn gyffredinol) wrth symud i wlad arall
- Setlo i amgylchfyd a chymuned newydd
- Setlo mewn ysgol newydd - deall polisïau ysgol, cyfarfod â phobl newydd
- Ailadrodd cynnwys y cwricwlwm
- Bylchau mewn addysg
- Cwricwlwm, arholiadau ac asesiadau gwahanol
- Diffyg dilyniant addysgol, yn arbennig yn achos plant ag ADY - cael cymorth priodol yn sydd ar ôl symud
- Cymorth iechyd meddwl a lles
- Teimlad o integreiddio mewn ysgol newydd
- Bwlio - stigma o gael eich gweld fel "Plentyn y Lluoedd Arfog" gwahanol
- Adleoli o lety'r Lluoedd Arfog - cynfilwyr/cyn bersonél y Lluoedd Arfog neu deuluoedd y Lluoedd Arfog yn dewis peidio byw yn yr uned.




*"Dydw i ddim yn cael dod â'r cŵn efo fi pan fyddan ni'n symud.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Effaith pontio

**Diffiniad o bontio:** cyfnod pan symudir o fywyd sifiliaid i fywyd y Lluoedd Arfog a vive versa.

*"Daeth ei gyfnod i ben yr wythnos ddiwethaf, felly bydd wedi gorffen erbyn diwedd y flwyddyn yma. Mae wedi gwneud 24 o flynyddoedd. Mae hynny yn well, oherwydd bydd o gwmpas llawer mwy. Mae'n hoffi dod i'n gwylio yn chwarae rygbi, felly bydd yn gallu gweld mwy ohonom."*

**Lewis, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Mae ein trefniadau pontio ar draws y clwstwr yn gadarn iawn ac rydym yn sicrhau y gall disgyblion symud yn ddidrafferth ar draws y clwstwr... Rydym yn canolbwyntio ar bontio cymdeithasol, ac mae'n bwysig iawn i fyfyrwyr yr MOD ein bod yn barod a bod gennym wybodaeth am y disgyblion."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr**

## Profiadau pontio

Yn y pen draw bydd holl bersonél y Lluoedd Arfog yn dychwelyd i fywyd sifiliaid, boed hynny ar ddiwedd eu hymgysylltiad ffurfiol neu yn gynnar oherwydd ymrwymiadau teuluol, rhesymau iechyd neu amgylchiadau na ragwelwyd. Gall gadael y Lluoedd Arfog a dychwelyd i gymdeithas sifiliaid achosi straen. Efallai y bydd gwahaniaethau diwylliannol yn golygu bod rhaid gwneud addasiadau personol.

Mae'r MOD yn annog cynllunio'n gynnar ar gyfer pontio, er mwyn cefnogi personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn y ffordd orau bosibl. JSP100 yw'r polisi pontio holistig tri-gwasanaeth newydd a fydd, pan y'i rhoddir ar waith, yn cynnwys cyfranogiad teuluoedd, cynllunio gyrfaoedd a pharatoi ar gyfer pontio. Mae'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP) yn darparu cymorth adsefydlu ar ran yr MOD i rai sydd yn gadael y Lluoedd Arfog ar ddiwedd eu gyrfa gyda'r Lluoedd Arfog. Mae CTP yn darparu cymorth adsefydlu, cyngor ar yrfaoedd a chyfleoedd hyfforddi i bob ranc wrth adsefydlu.

Mae nifer o deuluoedd yn dewis setlo yng Nghymru. Efallai bod hynny oherwydd eu teuluoedd/ffrindiau a rhwydweithiau cymorth sydd ar gael iddynt, neu o ganlyniad i brofiadau/amser cadarnhaol wrth fyw yng Nghymru yn ystod penodiad.

## Heriau/Rhwystrau sydd yn wynebu plant y Lluoedd Arfog mewn perthynas â phontio

### Cyn pontio

- Ymdopi ag emosiynau cadarnhaol a negyddol
- Sicrhau lle mewn ysgol newydd (a'r olaf o bosibl)
- Teimlad o golled wrth adael teulu/ffrindiau/ amgylchedd ac amgylchfyd cyfarwydd
- Anhawster o ran ymrwymo i berthnasoedd gyda chyfoedion, oedolion ac ysgol
- Datgysylltu â gwaith/gweithgareddau ysgol presennol
- Rhagweld effaith newidiadau

### Ar ôl pontio

- Emosiynol heriol - rheoli gwahanol deimladau/ ymddygiadau
- Newidiadau i'r uned deuluol a'r strwythur gofal ac arferion
- Materion iechyd meddwl a lles o ganlyniad i riant/rhieni yn dychwelyd
- Galar neu anaf i riant/rhieni o bosibl
- Ailsefydlu perthnasoedd
- Colli hunaniaeth - yn achos unrhyw aelod o deuluoedd y Lluoedd Arfog.

# Heriau/rhwystrau sydd yn wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog

*"4.1 Pan ofynnwyd beth yw'r tri math o gefnogaeth mwyaf buddiol y gall yr ysgol gynnig i blant y Lluoedd Arfog, roedd y prif atebion gan ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys: Cymorth bugeiliol wedi ei deilwra, aelod staff penodol ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, cymorth/mentora cymheiriaid."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"Mae gennym becyn gadael y mae croeso i bobl edrych arno, ac mae'n helpu i blant feddwl am y camau nesaf y byddant yn eu cymryd a sut y gallant gael cymorth."*

**Gweithiwr allweddol MOD, Ysgol Gymunedol Prendergast**

*"Yn draddodiadol mae'r Lluoedd Arfog yn symudol, ac oherwydd hynny mae'n rhaid i'r teulu fod yn symudol hefyd. Gall plant y Lluoedd Arfog symud o ysgol i ysgol am gyfnodau byr yn rheolaidd a gall hynny effeithio ar y plentyn. Gallant fod yn orbryderus a gall eu perfformiad ddirywio - nid yn achos pob plentyn, ond gall ddigwydd."*

**Swyddog Lles Uned, Gwasanaethau Lles y Fyddin**

## Teulu

- Deall profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog
- Ymgysylltu â rhieni - yn arbennig pan fo'r data symud ymlaen ar gael
- Amser gweinyddol ychwanegol er nwyn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth am blentyn y Lluoedd Arfog rhwng ysgolion.
- Mwy o amser cefnogi er mwyn cefnogi teulu/plentyn wrth symud ysgol (i mewn neu allan)
- Iaith a Diwylliant
- Rhannau hanes teuluol a gwybodaeth - bod yn ymwybodol eu bod yn deulu y Lluoedd Arfog
- Colli rhwydweithiau cymdeithasol - creu rhai newydd
- Integreiddio i amgylchedd a chymuned ysgol newydd
- Cefnogi anghenion lles emosiynol plentyn a theulu y Lluoedd Arfog
- Cefnogi plentyn y Lluoedd Arfog yn ystod problemau teuluol posibl (ysgariad/gwahanu) - goblygiadau ariannol posibl a/neu symud ysgol eto.

## Parodrwydd i ddysgu

- Cymorth a rhaglen gynefino
- Cymorth iechyd meddwl a lles pan fo angen
- Goresgyn anghenion/anawsterau emosiynol er mwyn eu galluogi i fod yn barod i ddysgu
- Anhawster adnabod ADY - oherwydd symudedd a' cyfnod byr y gall plentyn y Lluoedd Arfog fod yn yr ysgol
- Ymateb yn gyflym i gefnogi newydd-ddyfodiaid
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion posibl plentyn y Lluoedd Arfog a'r cymorth sydd ei angen
- Absenoldeb yn ystod y tymor - bod yn hyblyg ynghylch absenoldeb o herwydd adleoli ac amgylchiadau eraill
- Trosglwyddo dogfennau blaenorol a hanes addysgol

## Cynnydd a chyrhaeddiad

- Ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm blaenorol - er mwyn cefnogi bylchau posibl mewn dysgu neu ailadrodd cynnwys y cwricwlwm
- Adnabod bylchau mewn addysg/anghenion cwricwlwm/ymestyn dysgu
- Cefnogi effaith heriau ymddygiadol
- Trosglwyddo dogfennau blaenorol a hanes addysgol - yn arbennig wrth symud i wlad arall
- Sicrhau bod y staff yn cofleidio sgiliau a doniau plant y Lluoedd Arfog a'r arbenigedd y maent yn eu cynnig i'r ysgol
- Cefnogi plant y Lluoedd Arfog sydd yn dysgu Cymraeg am y tro cyntaf.

# Cymorth ac Adnoddau

Gweler yr adran **Addysg yng Nghymru** ar gyfer y pecyn cymorth yma i gael mwy o wybodaeth ar y cwricwlwm yng Nghymru, cymariaethau â chwricwla eraill, gwybodaeth am ADY a llawer mwy.

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae adnoddau sy'n berthnasol iawn i plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog**
**Templed: Gwefan Ysgol - gwybodaeth am blant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Llythyr i rieni**
**Templed: Pecyn croeso yr ysgol**
**Rhestr wirio: Pontio i mewn ac allan o'r ysgol**
**Cwestiynau enghreifftiol: I'w gofyn i blentyn y Lluoedd Arfog o'r newydd**
**Cyflwyniad: Y Lluoedd Arfog a phrofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Poster: Cymuned y Lluoedd Arfog yn yr ysgol**
**Templed: Hyrwyddo darpariaeth ieuenctid**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Holiadur Rhiant/Gofalwr**
**Cyngor: Adnoddau a Argymhellir**
**Templed: Llyfryn symud ysgol (i blant y Lluoedd Arfog)**
**Templed: Gwybodaeth am newid ysgol i blant y Lluoedd Arfog.**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

## Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru.** Mae'r astudiaethau achos sydd yn benodol berthnasol i ddeall profiadau plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- **Ysgol Uwchradd Aberhonddu (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Gynradd Y Priordy Yr Eglwys yng Nghymru (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Plascrug (Ceredigion) – Cymorth bugeiliol wedi ei deilwra ar gyfer plant y Lluoedd Arfog**
- **Hyrwyddwr Plant y Lluoedd Arfog YEP (Rhondda Cynon Taf) - Effaith gadarnhaol darpariaeth ieuenctid**
- **Ysgol Feithrin Mount Street, (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Gynradd Prendergast (Sir Benfro) - Cefnogi plant y Lluoedd Arfog i bontio**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Adnoddau SSCE Cymru

Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru
Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog
Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion
Ffilmiau am ddysgu Cymraeg
Cylchlythyrau SSCE Cymru






*"Mae yna fwy o gefn gwlad yng Nghymru.*

*"Dw i'n hoffi cacennau cri.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Addysg yng Nghymru







# Cynnwys

## Pecyn Gwaith i Ysgolion: Addysg yng Nghymru

Addysg 34

Addysg yng Nghymru 37

Cymharu Addysg 38

Yr iaith Gymraeg mewn ysgolion 41

Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor 43

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 43

Cymorth ac Adnoddau 45

# Addysg

*"Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol."*

**Kirsty Williams AC, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru**

*"Rydw i wedi bod mewn saith ysgol wahanol. Dydw i ddim wedi aros mewn unrhyw un ysgol yn ddigon hir. Mae'n cael effaith fawr ar rywun oherwydd mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r amser i wneud ffrindiau a setlo fewn. Mae'n weddol anodd ond gan eich bod wedi gorfod gwneud hynny'n aml, rydych chi'n arfer â'r peth."*

**Shana, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Mae anghenion ofnadwy o wahanol ganddynt.... efallai bod myfyriwr Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn fwy abl, ond gan eu bod wedi symud gymaint o weithiau, mae'n bosib nad ydynt wedi cael eu hymestyn. Yn yr un modd efallai fod ganddynt anawsterau Anghenion Addysgol Arbennig, ac mae'n bosib nad yw'r rhain wedi eu nodi gan eu bod wedi symud ysgolion."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr**



Mae cwricwlwm Cymru eisiau i blant fwynhau dysgu a datblygu sgiliau, gwybodaeth, a gwytnwch emosiynol. Erbyn iddynt fod yn 16 oed, dylent fod yn unigolion hyderus ac egwyddorol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a'u cymdeithas. Dylent fod yn barod i ffynnu yn y byd gwaith newydd.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

**Mae pob ysgol yn chwarae rôl o ran hyrwyddo ymrwymiad i addysg i bawb, a gellir cyflawni hyn drwy ddull ysgol gyfan sy'n cynnwys:**

- Cydnabyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Profiadau dysgu ac addysgu o safon uchel
- Ethos a gweledigaeth glir i bob dysgwr
- Gwreiddio'r ethos hwn ar draws cymuned yr ysgol
- Sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a sefydliadau allanol
- Cynllunio a gwneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Ymrwymiad drwy bolisïau ac arferion
- Perthnasau llawn parch rhwng athrawon a dysgwyr
- Trefniadau adlewyrchu a hunan werthuso
- Cynnig addysgu proffesiynol ac ymrwymiad i les staff
- Gwrando ar lais y disgybl a chyfleoedd cyngor ysgol
- Arferion amgylchedd yr ysgol.

**Gallai polisïau ysgolion a allai gefnogi'r arfer hwn gynnwys:**

- Y Cwricwlwm
- Dysgu ac addysgu
- Asesu
- Ymddygiad a gwrth-fwlio
- Diogelu ac amddiffyn plant.

Gall pob plentyn, gan gynnwys plant Milwyr, brofi anawsterau ar ryw gyfnod yn eu bywydau  Mae plant Milwyr yn wynebu heriau sy'n dod gyda bywyd Milwyr, gan gynnwys symud yn aml ac effeithiau rhiant yn cael eu lleoli, ac effeithiau bod ar wahân. Mae pob plentyn yn unigolyn ac yn rheoli sefyllfaoedd mewn gwahanol ffyrdd.

Mae mwy o wybodaeth ar blant Milwyr a bywydau teuluoedd Milwyr a'u profiadau a'r heriau maent yn eu wynebu yn adrannau **Lluoedd Arfog yng Nghymru** a **Phrofiadau Plant Milwyr** y pecyn hwn.

> ***"Roedd fy ysgol newydd yn ysgol fach, ac roedd yn well gen i hynny oherwydd bod hi'n haws dod i adnabod pobl.***





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg cynradd fod am ddim a rhaid i wahanol ffurfiau o addysg uwchradd fod o fewn cyrraedd pob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plentyn a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod. Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd plentyn hyd eithaf eu potensial. Rhaid magu parch y plentyn tuag at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, yn ogystal â'r amgylchedd"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae lleoliadau addysg yng Nghymru yn gweithio'n galed i alluogi plant i sylweddoli eu hawliau, a dylai ysgolion wneud y cyswllt rhwng eu gwaith a hawliau'r plentyn yn amlwg wrth iddynt sefydlu fframwaith glir ar gyfer eu gwaith. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu sylfaen gadarn o werthoedd ar gyfer cymuned ysgol, sy'n cael eu cydnabod o dan ddeddfwriaeth ryngwladol. Mae polisi a deddfwriaeth ar blant yng Nghymru yn cael eu hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae "Dull Hawliau Plant" yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn a bydd yn helpu lleoliadau addysgiadol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

**Egwyddorion Dull Hawliau Plant yw:**

- Ymsefydlu hawliau plant
- Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd.

Dylai ysgolion yng Nghymru osod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i brofiad pob plentyn o addysg ac yn ganolog i gynllunio, addysgu, gwneud penderfyniadau, polisïau ac arferion yn yr ysgol.

Am wybodaeth bellach ewch i www.complantcymru.org.uk

## Cymru Well Wales: Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod

*"Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Profiadau trawmatig yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n digwydd cyn bod plentyn yn 18, ac sy'n cael eu cofio gan yr unigolyn drwy gydol eu bywyd. Gall y profiadau hyn gael effaith negyddol ar brofiad plentyn mewn addysg. Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn amrywio o ddioddef cam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol i fagwraeth lle mae trais domestig, cam-drin alcohol, a cham-ddefnydd o gyffuriau yn bresennol, neu fagwraeth lle mae rhieni wedi gwahanu.

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen a phlentyndod o ansawdd isel yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sy'n niweidiol i'w iechyd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â throsedd, ac yn y pen draw yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas.

Mae Cymru Well Wales wedi ymrwymo i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith yng Nghymru drwy; sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gallu ymateb yn effeithiol i atal a lliniaru'r niwed drwy Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a drwy adeiladu ffactorau gwarcheidiol a gwytnwch yn y boblogaeth i ymdopi â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod na ellir eu hatal.

Am wybodaeth bellach ewch i www.wales.nhs.uk

# Addysg yng Nghymru

*"4.6 Roedd 70.5% o ysgolion yn nodi y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio ag ysgolion eraill i gefnogi plant Milwyr."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

## Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022)

Ar hyn o bryd mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael ei ddiffinio gan Ran 7 Deddf Addysg 2002. Bydd y cam cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm newydd fesul cam yn cychwyn yn 2022 ar y cynharaf. Bydd yn berthnasol i bob Cyfnod Allweddol – o 3 i 16 mlwydd oed.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a'r gweithgareddau asesu a gynlluniwyd at bedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc fel:

- Dysgwyr galluog a hyderus, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion hyderus ac iach, yn barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Cwricwlwm Cymru 2022 wedi ei ddylunio i helpu pob dysgwr i gyflawni'r pedwar diben hwn. Mae pob diben yn fwy na phennawd yn unig; mae hefyd yn cael ei ddisgrifio o safbwynt nodweddion allweddol. Gyda'i gilydd dylent fod yn sail i holl ddysgu ac addysgu Cymru.

Am wybodaeth bellach ewch i **llyw.cymru/cwricwlwm-gymru**




## Estyn

Diben **Estyn** yw archwilio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae "Plant Teuluoedd Milwyr" yn cael eu cynnwys o dan adran 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol yn **Llyfr Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol.** Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o blant Milwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol; ac yn annog ysgolion i fonitro cynnydd a chanlyniadau'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymharu Addysg

*"Ysgolion newydd.. Byddwn i'n dweud 'Meddyliwch am y peth fel profiad'. Ni all dod i adnabod mwy o bobl wneud unrhyw ddrwg. Dydy symud i ffwrdd oddi wrth bobl ddim yn ddiwedd y byd – mae fel dechreuad newydd. Dwi'n adnabod pobl o amgylch y byd oherwydd fy mod wedi mynd 'S'mai be di dy enw di?"*

**Ieuan, un o blant y Lluoedd Arfog**

## Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

Mae Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhan o **Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc**. Maent yn darparu addysg i blant staff y Lluoedd Arfog a dinasyddion cymwys Y Weinyddiaeth Amddiffyn, contractwyr cymwys a thalwyr ffioedd. Mae'r rhan fwyaf o Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn dramor, gydag un ysgol yn Yr Alban sy'n dilyn y cwricwlwm a'r fframwaith cymwysterau Albanaidd. Mae lleoliadau amrywiol Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ymrwymiad eu staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â chwricwlwm cyfoethog tra byddant dramor. Mae Ysgolion Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adlewyrchu system addysg Lloegr, gan gynnwys arolygiadau, asesiadau ac arholiadau Ofsted. Mae'r rhai o'r lleoliadau hyn yn Brunei a Cyprus.

Mae angen cliriad addysgol ar bob plentyn 0-18 cyn postio i swyddi tramor. Mae hyn yn cynnwys postiadau i ardaloedd ysgol y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ysgolion y tu allan i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd DCYP yn gofyn i ysgolion gwblhau ffurflen cymorth i fyfyrwyr sy'n cefnogi addysg dramor (EOS) ar gyfer unrhyw blant gwasanaeth sydd ar fin symud dramor fel rhan o'r broses o bostio eu rhieni. Heb EOS ni fydd modd i'r postio fynd ymlaen a gall olygu bod y teulu yn cael eu gwahanu oddi wrth y person gweini am gyfnod o amser.

### Gwahaniaethau rhwng cwricwla

| | Cymru | Lloegr | Yr Alban |
|---|---|---|---|
| Y Cyfnod Sylfaen | Symud i gwricwlwm statudol newydd erbyn 2022<br><br>hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad | Mae saith maes dysgu a datblygu y mae rhaid iddynt siapio rhaglenni addysgol mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar:<br><br>• Cyfathrebu a iaith<br>• Datblygiad Corfforol<br>• Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol<br><br>Rhaid i ddarparwyr hefyd gefnogi plant mewn pedwar maes penodol, bydd y tri prif faes yn cael eu cryfhau a'u cymhwyso drwyddynt.<br><br>Y meysydd penodol yw:<br><br>• Llythrennedd<br>• Mathemateg<br>• Deall y byd<br>• Celf a dylunio mynegiannol<br><br>www.foundationyears.org.uk/files/2017/03/EYFS_STATUTORY_FRAMEWORK_2017.pdf | Mae wyth maes cwricwlwm:<br><br>• Celf mynegiannol<br>• Iechyd a Lles<br>• Ieithoedd (gan gynnwys Saesneg, Gaeleg yr Alban, dysgwyr Gaeleg a ieithoedd modern)<br>• Mathemateg<br>• Addysg grefyddol a moesol<br>• Gwyddorau<br>• Astudiaethau Cymdeithasol<br>• Technolegau<br><br>Caiff llythrennedd, rhifedd, iechyd a lles eu cydnabod fel bod yn arbennig o bwysig.<br><br>www.gov.scot/publications/early-years-framework/pages/1/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 1 | Fel yr uchod | Y pynciau gorfodol yn yr ysgol gynradd yw:<br><br>• Saesneg<br>• Mathemateg<br>• Gwyddorau<br>• Dylunio a Thechnoleg<br>• Hanes<br>• Daearyddiaeth<br>• Celf a Dylunio<br>• Cerddoriaeth<br>• Addysg Gorfforol, gan gynnwys nofio<br>• Cyfrifiadureg.<br><br>Rhaid i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol ond gall rhieni holi i'w plant gael eu tynnu allan o ran o'r wers, neu'r wers gyfan.<br><br>Bydd Addysg Perthnasau a Rhyw yn dod yn statudol ym mhob ysgol o fis Medi 2020.<br><br>Mae ysgolion hefyd yn dysgu:<br><br>• Addysg Bersonol, Cymdeithasol a Iechyd<br>• Dinasyddiaeth<br>• Ieithoedd tramor modern<br><br>assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/335186/PRIMARY_national_curriculum_-_English_220714.pdf | Fel yr uchod<br><br>Dilynwch y ddolen hon i gael mwy o wybodaeth:<br>www.education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/curriculum-areas |
| Cyfnod Allweddol 2 | Fel yr uchod | Fel Cyfnod Allweddol 1<br><br>• Ieithoedd tramor modern neu hynafol (Cyfnod Allweddol 2) | Fel yr uchod |
| Cyfnod Allweddol 3 a 4 | Cwricwlwm i Gymru (2022)<br><br>• Blwyddyn 7 yn statudol o 2022<br>• Cyflwyno'n raddol ar draws grwpiau blwyddyn o 2023.<br><br>hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad | Pynciau craidd:<br>• Saesneg<br>• Mathemateg<br>• Gwyddoniaeth<br><br>Pynciau sylfaen:<br>• Celf a Dylunio<br>• Dinasyddiaeth<br>• Cyfrifiadureg.<br>• Dylunio a Thechnoleg<br>• Ieithoedd<br>• Daearyddiaeth<br>• Hanes<br>• Cerddoriaeth<br>• Addysg Gorfforol<br><br>Rhaid i bob ysgol hefyd ddysgu Addysg Grefyddol ym mhob Cyfnod Allweddol a darparu addysg ryw a pherthnasau.<br><br>assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381754/SECONDARY_national_curriculum.pdf | Hyd at 14 oed – fel yr uchod<br><br>Mae'r Cwricwlwm Cyfnod Uwch, o S4 i S6 (tua 15 i 18 oed) yn dilyn addysg gyffredinol person ifanc, gan adeiladu ar y profiadau a'r canlyniadau byddant wedi eu profi a'u cyflawni erbyn diwedd S3.<br><br>Mae'n eu galluogi i ymestyn a dyfnhau eu dysgu a pharau i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith, drwy gymwysterau a thrwy amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol (er enghraifft, profiad gwaith neu wirfoddoli). |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Gwahaniaeth mewn grwpiau blwyddyn ysgol

| Oedran yn y flwyddyn ysgol | | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cwricwlwm i Gymru 2022 | Cwricwlwm Cenedlaethol | Cwricwlwm Gogledd Iwerddon | Cwricwlwm er Rhagoriaeth (CfE) |
| 4–5 | Y Cyfnod Sylfaen | Derbyn | Derbyn Cyfnod Sylfaen | P1 | Lefel Meithrin / Cynnar |
| 5–6 | | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 1 Cyfnod Allweddol 1 | P2 | P1 (Lefel Cynnar) |
| 6–7 | | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 2 Cyfnod Allweddol 1 | P3 | P2 (Lefel Cyntaf) |
| 7–8 | Cyfnod Allweddol 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 3 Cyfnod Allweddol 2 | P4 | P3 (Lefel Cyntaf) |
| 8–9 | | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 4 Cyfnod Allweddol 2 | P5 | P4 (Lefel Cyntaf) |
| 9–10 | | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 5 Cyfnod Allweddol 2 | P6 | P5 (Ail Lefel) |
| 10–11 | | Blwyddyn 6 | Blwyddyn 6 Cyfnod Allweddol 2 | P7 | P6 (Ail Lefel) |
| | | | | | P7 (Ail Lefel) |
| Uwchradd + | | | | | |
| 11–12 | Cyfnod Allweddol 3 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7 Cyfnod Allweddol 3 | P8 | S1 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 12–13 | | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 8 Cyfnod Allweddol 3 | P9 | S2 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 13–14 | | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 9 Cyfnod Allweddol 3 | P10 | S3 (Trydydd/ Pedwerydd Lefel) |
| 14–15 | Cyfnod Allweddol 4 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 10 Cyfnod Allweddol 4 | P11 | S4 (Cyfnod Uwch) Gall disgyblion adael y flwyddyn hon, o 15 a hanner oed ymlaen |
| 15–16 | | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 11 Cyfnod Allweddol 4 | P12 | |
| Lefel A a 'SCE Highers' - ddim yn orfodol | | | | | |
| 16–17 | Ôl -16 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 12 | P13 | S5 (Cyfnod Uwch) |
| 17–18 | | Blwyddyn 13 | Blwyddyn 13 | P14 | S6 (Cyfnod Uwch) |
| | | | | | Mae cyrsiau gradd is raddedig yn Yr Alban yn bedair blynedd o hyd. Mae rhai pobl ifanc yn cychwyn arnynt yn 17 |

# Yr iaith Gymraeg mewn ysgolion

*"Pan ddes i yma gyntaf, roeddwn yn nerfus am y Gymraeg a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud."*

**Prasna, un o blant y Lluoedd Arfog**

*"Rydym yn edrych ar eu bylchau ac yn darparu ymyraethau pwrpasol."*

**Gweithiwr Allweddol Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ysgol Gymunedol Prendergast**

*"4.1 Wrth siarad am eu profiadau yn byw yng Nghymru, gwnaeth 16% o'r plant sylwadau negyddol am ddysgu Cymraeg ac 8% sylwadau cadarnhaol. Ni chafwyd sylwadau negyddol na chadarnhaol am ddysgu Cymraeg gan y plant hynny sy'n mynychu'r ysgol Gymraeg."*

**Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**

*"Mae'r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o beth sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein uchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld y nifer o bobl sy'n mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hwn yn uchelgais heriol, ond yn her rydym yn ei gredu sy'n un gwerth chweil ac yn angenrheidiol os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."*

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog, ac Alun Davies AC, cyn Weinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg**

*"Mae dysgwyr y mae'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt yn wynebu heriau ychwanegol o ran caffael iaith a llythrennedd. Mae'n bosib bod dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn dysgu Saesneg / Cymraeg am y tro cyntaf, ac felly bydd angen cymorth penodol ychwanegol arnynt er mwyn eu helpu i gaffael sgiliau llythrennedd priodol. Dylid darparu deunyddiau sy'n briodol i'w gallu, eu haddysg a'u profiadau blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad iaith. Mae natur flynyddol y datganiadau o ddisgwyliad yn caniatáu ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r sgiliau priodol i'w cwricwlwm."*

**Rheolwr Prosiect, SSCE Cymru**

*"3.2 Pan ofynnwyd beth oedd y tair her fwyaf sylweddol yr oeddent yn wynebu wrth gefnogi plant Milwyr, nododd dros 25% o ysgolion uwchradd: Cynorthwyo plant Milwyr i ddysgu Cymraeg am y tro cyntaf"*

**Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni anghenion addysgol holl blant a phobl ifanc Cymru fel y gallant gyflawni eu llawn botensial. Mae astudio Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith yn elfen statudol o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru, ar gyfer pob dysgwr hyd at 16 oed. Ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, mae Cymraeg neu Gymraeg Ail iaith yn rhan o lwybr dysgu pob unigolyn.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

Mae ymchwil yn dangos bod siarad mwy nag un iaith yn gallu rhoi hwb i blentyn mewn sawl ffordd. Gall bod yn ddwyieithog:

### Being bilingual could:

- Ei gwneud yn haws i ddysgu ieithoedd eraill, a chyflwyno plant i wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau
- Cael effaith bositif ar yr ymennydd
- Manteisiol iawn wrth chwilio am waith, integreiddio i'r gymuned leol a chefnogi'r economi lleol.

## Datgymhwyso Plant Milwyr o ran arholiadau Cymraeg

***"Erthygl 3: Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn."***

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)**

Er bod astudio Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith yn orfodol hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, does dim gofyniad ar ysgolion i gofrestru dysgwr ar gyfer cymhwyster penodol. Yr ysgolion unigol sydd i benderfynu ar hynny, gan ystyried lles y dysgwr. Rhaid i ysgolion, os yw arholiad yn cael ei sefyll ai peidio, sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at y rhaglen gwricwlwm llawn o astudiaeth ar gyfer pa gwrs bynnag sy'n cael ei ddilyn. Mae hwn yn ofyniad gorfodol.

Dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y gall fod angen datgymhwyso dysgwyr dros dro o unrhyw ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dim ond y pennaeth all wneud y penderfyniad i ddatgymhwyso disgybl o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan adolygu'r angen i ddatgymhwyso ar sail unigol a gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sylweddol is na'r lefelau disgwyliedig ar unrhyw Gyfnod Allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r rhaglen yn unol â hynny. Mae digon o hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm i fodloni gofynion dysgwr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwr unigol, fel arfer ar sail dros dro, ond ni ddylid datgymhwyso ar lefel grŵp.

Am fwy o wybodaeth am ddatgymhwyso a'r amgylchiadau lle gelir gwneud hyn, gweler "Datgymhwyso dros dro" yn Atodiad D (tudalen 20) y **trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.**

***"Dw i'n defnyddio'r jar pryderon ac yn rhoi fy mhryderon ynddo.***





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Polisi Absenoldeb yn ystod y tymor

Pan fydd aelodau'r Lluoedd Arfog yn dychwelyd o'u lleoliad, fel arfer maent yn cael cyfnod o wyliau i'w dreulio gyda'u teuluoedd, o'r enw 'Gorffwys ac Adfer' (Rest and Recovery / R&R). Mae'r cyfnod hyn o wyliau yn cael eu pennu gan eu cyfnodau ar leoliad, a byddant yn aml yn digwydd yn ystod y tymor.

Mae pŵer gan Benaethiaid i awdurdodi gwyliau ar gyfer gwyliau teulu yn ystod y tymor os yw rhieni yn ceisio caniatâd.

Os nad oes polisi absenoldeb yn ystod y tymor gan ysgol eisoes sy'n cynnwys amgylchiadau ar gyfer plant Milwyr a'u teuluoedd, efallai eu bod am ystyried:

- Sicrhau ble bo'n bosib bod ystyriaeth yn cael ei roi i deuluoedd Milwyr nad ydynt o bosib y gallu cymryd gwyliau gyda'i gilydd ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn ysgol
- Annog teuluoedd Milwyr i ddweud wrth yr ysgol pryd maent yn bwriadu cymryd eu plant allan o'r ysgol yn ystod tymor yr ysgol am wyliau neu resymau eraill sy'n ymwneud ag ymrwymiadau'r Lluoedd Arfog.

Dylai pennaeth ystyried amser y flwyddyn y trip arfaethedig, hyd, a diben y gwyliau, effaith ar barhad dysgu, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni yn ogystal â phatrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn.

Mae rhai ysgolion wedi datblygu systemau lle mae Milwyr yn darparu llythyr gan eu huned gyda chadarnhad o'r angen i fod yn absennol. Ni fyddai'r pennaeth yn awdurdodi absenoldeb yn ystod y tymor heb gadarnhad.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Derbyniodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Mae'r **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Bydd y system ADY newydd yn cychwyn, fesul cam, o fis Medi 2021. Bydd y Cod a'r rheoliadau yn cael eu rhoi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo yn 2020.

## Drafft y Cod Gorfodol Rhagfyr 2018

Bydd y Cod ADY yn dod yn ganllaw statudol ar gyfer darparwyr a lleoliadau addysg yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach, yn ogystal â phartneriaid allweddol ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen i ddarparwyr addysg feithrin nad ydynt yn cael eu cynnal, sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, hefyd dalu sylw i'r canllaw perthnasol yn y Cod ADY. Mae adrannau allweddol ohono yn cynnwys:

- **Pennod 5 – Dyletswydd i barhau i adolygu darpariaeth addysgu:** bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau sydd yn y Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio Darpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc â rhieni yn y Lluoedd Arfog sydd ag ADY.
- **Pennod 23 – Plant a Phobl Ifanc mewn Amgylchiadau Penodol:** mae hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â rhieni yn y Lluoedd Arfog.

## Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP)

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant** o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu cyngor a chanllawiau i Rieni yn y Lluoedd Arfog, sefydliadau addysg ac awdurdodau lleol ar faterion addysgol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â rhieni yn y Lluoedd Arfog, waeth beth yw eu statws o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

Gan fod yr adnoddau sydd ar gael dramor yn wahanol i'r rhai yn y DU, mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cwblhau Assessment of Supportability Oveseas ar gyfer plant aelodau o'r lluoedd arfog sydd ag anghenion cymhleth cyn cytuno ar leoliad tramor.

Gall plant a phobl ifanc y mae eu rhiant/rhieni'n aelodau o'r Lluoedd Arfog wynebu anawsterau sy'n unigryw i natur cyflogaeth eu rhieni. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn codi o ganlyniad i:

- symud oherwydd gwasanaeth – efallai y bydd aelodau o'r lluoedd arfog yn adleoli'n amlach na gweddill y boblogaeth ac, weithiau, ar fyr rybudd. Bydd angen i drosglwyddiadau o'r fath gael eu rheoli'n dda er mwyn osgoi oedi wrth adnabod a diwallu ADY plant Milwyr.
- Anfon rhieni sy'n aelodau o'r lluoedd arfog i sefyllfaoedd gweithredol – er na fyddai hyn yn arwain at ADY ynddo'i hun, gallai arwain at bryder i blentyn neu berson ifanc a dirywiad yn ei berfformiad addysgol a/neu anawsterau emosiynol. Gall plant a phobl ifanc wynebu trafferthion tebyg hefyd os bydd eu brodyr neu eu chwiorydd yn cael eu hanfon ar leoliad.

> *"Mae bod efo pobl sy'n deall sut dw i'n teimlo yn helpu.*



Dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog sydd ag ADY (gweler Pennod 5 am gyfarwyddyd pellach ar adolygu DDdY yn rheolaidd).

O ran plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog, dylai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch ADY a llunio a/neu gynnal Cynllun Datblygu Unigol:

- Ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog (e.e. symud oherwydd gwasanaeth);
- Ystyried gofyn am gyngor gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant; a defnyddio'r holl dystiolaeth berthnasol yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc - gan gynnwys unrhyw gynlluniau AIG (Lloegr), datganiadau (Gogledd Iwerddon), Cynlluniau Cymorth Cydgysylltiedig (yr Alban) a'r Asesiad o Anghenion Plant y Lluoedd Arfog (SCAN) a gwblhawyd ar eu cyfer gan Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn - wrth wneud penderfyniadau am ADY, llunio neu gynnal CDU a gwneud DDdY ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaethau-digartrefedd-i-bobl-ifanc-yn-yr-ystad-ddiogel

## Cofrestru gyda Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn (CEAS)

Gofynnir i ysgolion annog teuluoedd y Lluoedd Arfog gofrestru unrhyw un o'u plant sydd ag ADY gyda'r CEAS os yw unrhyw un o'r plant hynny ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy neu gymorth pellach. Diben cofrestru yw galluogi CEAS i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd Lluoedd Arfog gydag unrhyw broblem sy'n ymwneud â'u hanghenion.

Am fanylion cyswllt, gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru**.

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler **Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru** i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae adnoddau sy'n berthnasol iawn i ddysg yng Nghymru yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - Gwybodaeth am blant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Pecyn croeso yr ysgol**
**Rhestr wirio: Pontio i mewn ac allan o'r ysgol**
**Cwestiynau enghreifftiol: I'w gofyn i blentyn y Lluoedd Arfog o'r newydd**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Holiadur Rhiant/Gofalwr**
**Cyngor: Adnoddau a Argymhellir**
**Templed: Llyfryn symud ysgol (i blant y Lluoedd Arfog)**
**Templed: Gwybodaeth am newid ysgol i blant y Lluoedd Arfog**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

## Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer da ar gael ar wefan **SSCE Cymru.** Mae'r astudiaethau achos sy'n arbennig o benodol i addysg yng Nghymru yn cynnwys:

- **Ysgol Y Tywyn (Ynys Môn) - Plant y Lluoedd Arfog yn dysgu Cymraeg**
- **Swyddog Cymorth Addysg HMF (Casnewydd a Sir Fynwy) – Defnyddio data'n effeithlon i gefnogi plant Milwyr**
- **Ysgol Gynradd Kymin View (Sir Fynwy) - Cydweithrediad Ysgol i gefnogi plant y Gwasanaeth**
- **Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr (Bro Morgannwg) - Defnydd effeithiol o arian i gefnogi plant y Lluoedd arfog**
- **Ysgol Feithrin Mount Street, (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**

## Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

ssce CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Data plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol







# Cynnwys

**Pecyn Gwaith i Ysgolion: Data plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol**

Data plant y lluoedd arfog yng Nghymru 48
Derbyniadau Ysgol 50
Trosglwyddo data cofnodion ysgol 52
Cymorth ac Adnoddau 53

# Data plant y lluoedd arfog yng Nghymru

## Pam casglu data ar blant y lluoedd arfog?

*"Ar ôl blynyddoedd lawer o fod yn agos at ganolfan Weinyddiaeth Amddiffyn, rydym wedi darganfod ei bod yn ddefnyddiol iawn bod mewn sefyllfa i adnabod ein plant lluoedd arfog, ac wedi hynny i allu casglu data am y grŵp targed hwn. Mae ganddyn nhw anghenion gwahanol i'n grwpiau targed eraill ond mae'r data yn caniatáu inni dargedu cefnogaeth, monitro cynnydd, mireinio darpariaeth a gwneud cais am arian grant ar gyfer darpariaeth well ar draws y clwstwr."*

Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr

*"Mae casglu data sy'n gywir, yn gadarn ac yn gyson yn allweddol i ddeall profiadau a theithiau addysgol plant y lluoedd arfog. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau tegwch mewn mynediad, cyfranogiad a chefnogaeth trwy bob cyfnod o addysg. Mae hefyd yn helpu i weithio tuag at brofiad cyson i blant y lluoedd arfog yng Nghymru, boed hynny yng Nghaerdydd neu Corwen, Llangefni neu Llanelli."*

Dr Michael Hall, Cynghrair SCiP

*"I ddefnyddio ymadrodd poblogaidd yn y sector elusennol,' Dim niferoedd heb straeon, dim straeon heb niferoedd'. Fel Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog, rydym yn clywed straeon plant, pobl ifanc a theuluoedd y Lluoedd yn ddyddiol. Mae'r straeon hyn yn ein helpu i ddeall eu 'profiad byw' ac i nodi themâu a materion y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy. Er mwyn cael darlun crwn ac i dargedu'r meysydd allweddol, mae angen data. Heb niferoedd, mae'n anodd dadansoddi a deall anghenion plant a phobl ifanc, a sicrhau bod cefnogaeth a gwasanaethau effeithiol yn cael eu comisiynu. Mae bylchau, darnio ac anghysondebau yn creu rhwystrau i newid. Mae plant a phobl ifanc y lluoedd arfog yn aml yn grŵp anweledig (yn enwedig y rhai sy'n ofalwyr ifanc) ac efallai y byddan nhw'n wynebu heriau ychwanegol o ganlyniad i wasanaeth y rhiant (rhieni). Mae angen data arnom i helpu asiantaethau i ddarparu'r gefnogaeth gywir ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol."*

Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges, Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF), Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr

*"2.1. Nododd 35 o ysgolion gyfanswm o 334 o blant y lluoedd arfog a gyrhaeddodd ganol y flwyddyn yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. 2.2. Nododd 19 o ysgolion gyfanswm o 206 o blant y lluoedd arfog a adawodd ganol y flwyddyn yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Mae hyn yn cyflwyno heriau i ysgolion wrth ddod o hyd i'r amser a'r adnoddau i gefnogi dysgwr newydd."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

*"4.5 Nododd 15% o ysgolion eu bod yn monitro cynnydd academaidd plant y lluoedd arfog yn erbyn plant nad ydynt yn rhai lluoedd arfog. Mae hyn yn sylweddol uwch, sef 35%, wrth edrych ar ddim ond y pedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Dyffryn Morgannwg)."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Yn Adroddiad Blynyddol Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru 2019, gwnaeth Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, yr ymrwymiad i gasglu data ar blant y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae SSCE Cymru a'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP) yn cefnogi Llywodraeth Cymru i roi'r newid hwn ar waith.

## Gweithgaredd casglu data SSCE Cymru (2019)

*"Mae dros draean o'r ysgolion a gwblhaodd arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019) yn nodi nad oeddent yn gwybod faint o blant y lluoedd arfog yr oeddent wedi'u cofrestru."*

SSCE Cymru

Ysgrifennodd SSCE Cymru at bob ysgol yng Nghymru (ychydig dros 1,500), gan ddarparu llythyr templed i'w anfon at rieni i adnabod plant lluoedd arfog mewn ysgolion. Ymatebodd dros draean o'r ysgolion i SSCE Cymru, gan nodi dros 2,000 o blant lluoedd arfog mewn ychydig llai na 400 o ysgolion.

Diffiniad SSCE Cymru o blentyn y lluoedd arfog yw:

**Person mae ei riant, neu prif ofalwr, yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd, neu fel rhywun wrth gefn, neu sydd wedi gwneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod 25 mlynedd gyntaf bywyd y person hwnnw.**

Am y cofnod diweddaraf o'r data hwn, cliciwch yma.



*"Dw i'n darllen Harry Potter efo mam, ond dydw i ddim yn gallu gwneud hynny pan fydd hi i ffwrdd.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

### Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog Mewn Addysg Cymru: Astudiaeth o Ddata a'r Ddarpariaeth o ran Cefnogaeth yng Nghymru (2015)

Wedi ei gomisiynu gan SSCE Cymru a'i reoli gan Uned Ddata Cymru roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfweliadau gydag ysgolion ar draws Cymru a chanfuwyd mai ychydig iawn o ddata oedd ar gael, gan ddangos yr angen am fwy o wybodaeth ac arweiniad i alluogi ysgolion i gasglu data a chael mynediad at gefnogaeth.

Yr hyn wnaeth yr adroddiad yn ei ganfod, wedi ei seilio ar y data cyfrifiad mwyaf diweddar (2011), yw bod yna deuluoedd lluoedd arfog gyda phlant hyd at 0-16 oed ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae data cyfrifiad 2011 yn dangos isafswm o 2,486 o blant yng Nghymru lle'r oedd Person Cyswllt y Cartref yn nodi ei fod ef neu hi yn y Lluoedd Arfog. Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth lle mae'r sawl nad yw'n Berson Cyswllt y Cartref yn y Lluoedd Arfog, na gwybodaeth ar gyn-filwyr neu filwyr wrth gefn neu lle nad yw teuluoedd gyda phlant y Lluoedd Arfog yn byw yn yr un cyfeiriad.

I gael yr adroddiad astudiaeth data llawn cliciwch **yma**.

## Derbyniadau Ysgol



### Plant y Lluoedd Arfog yng Nghod Derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru

Mae angen i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ddilyn y canllaw a ddarperir yng Nghod Derbyniadau Ysgolion y gellir ei weld **yma**.

**Cyfeirir at blant y lluoedd arfog mewn pedwar lle yn y cod:**

| Adran y cod | Tudalen | Cynnwys | Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer derbyniadau ALl |
|---|---|---|---|
| Dalgylchoedd | 16 | 2.54 "O ran plant pobl yn Lluoedd Arfog y DU, rhaid i awdurdodau derbyn drin teulu sy'n symud i'r ardal fel petaent yn bodloni meini prawf preswylio ar gyfer dalgylch yr ysgol berthnasol ar ôl iddynt ddangos prawf o'u lleoliad, hyd yn oed os nad oes cyfeiriad ganddynt yn yr ardal ar y pryd." | Rhaid i ALl dderbyn ffurflenni cais i ysgolion oddi wrth deuluoedd lluoedd arfog nad ydynt ar hyn o bryd yn byw yn y dalgylch. |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod** | **27-28** | 3.48 "Oni ellir rhoi addysg i fathau arbennig o blant ("plant a eithrir") yn yr ysgol mewn dosbarth babanod arall lle na chroesir y terfyn heb gymryd camau perthnasol a fyddai'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, ni cheir cyfrif y plant hynny at ddibenion penderfynu a yw'r terfyn o 30 disgybl wedi'i groesi ai peidio. Plant a eithrir yw:<br><br>6. Plant y mae eu rhiant yn y lluoedd arfog ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol." | **Caiff plant personél y lluoedd arfog sydd i'w derbyn i ddosbarth babanod tu allan i'r rownd dderbyn arferol (canol blwyddyn) eu categoreiddio fel disgybl eithriedig, sy'n golygu y gall ALl fynd dros y terfyn o 30 disgybl.** |
| **Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)** | **31** | 3.66 "Rhaid i awdurdodau derbyn:<br>• Sicrhau bod anghenion plant y teuluoedd hyn yn cael eu hystyried.<br>• Neilltuo lle iddynt mewn ysgol ymlaen llaw, petai'r ymgeisydd yn ateb y meini prawf ar ôl symud i'r gyrchfan.<br>• Gwahodd cynrychiolydd o'r Lluoedd neu gynrychiolwyr crynodiadau sylweddol eraill o Weision y Goron i ymuno â'r fforwm derbyn.<br>• Derbyn cyfeiriad post Uned ar gyfer ceisiadau gan aelodau'r lluoedd os nad oes ganddynt gyfeiriad post cartref newydd."<br><br>3.67 "Rhaid i awdurdodau derbyn beidio â:<br>• Chadw lleoedd ar gyfer blociau o'r plant hyn, na<br>• Gwrthod lle i blentyn o'r fath am nad yw'r teulu'n byw yn ardal yr ALl ar y pryd." | |
| **Atodiad D: Fforymau Derbyn** | **41** | **D.10 "Gall aelodaeth graidd pob fforwm ofyn i'r ALl benodi unrhyw un y mae'n ei ystyried yn briodol i gynrychioli buddiannau sylweddol yn y gymuned leol. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle ceir crynodiad sylweddol o'r lluoedd arfog, rhaid i'r fforwm wahodd cynrychiolydd o luoedd y DU, a lle bo hynny'n briodol, dylid penodi cynrychiolwyr grwpiau ffydd nad ydynt eisoes wedi'u cynrychioli, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig."** | **Dylai ALl gyda chymunedau sylweddol o'r lluoedd arfog wahodd cynrychiolydd o'r lluoedd arfog i ymuno â'u fforwm derbyniadau. Mae ALl sydd â chymunedau sylweddol o'r lluoedd arfog yn cynnwys:**<br><br>• Ynys Môn<br>• Sir Benfro<br>• Powys<br>• Dyffryn Morgannwg. |



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Trosglwyddo data cofnodion ysgol

*"3.2 Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r tair her fwyaf arwyddocaol sy'n eu hwynebu wrth gefnogi eu plant lluoedd arfog, nododd dros 33% o ysgolion uwchradd: Cael gwybodaeth am blentyn lluoedd arfog o'r ysgol flaenorol."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Mae'r ddarpariaeth yn y **Rheoliadau Gwybodaeth Disgyblion** ar gyfer trosglwyddo cofnodion addysgol yn ddiogel pan fo disgybl yn newid ysgolion yn berthnasol i bob ysgol ledled y DU ac yn cwmpasu trosglwyddiadau o ysgolion a gynhelir i academïau, ysgolion rhydd ac ysgolion annibynnol.

Mae'n ofynnol i ysgolion gadw a diweddaru cofnodion cwricwlaidd ac addysgol disgyblion a sicrhau y gall rhieni gael mynediad at gofnodion eu plant. Rhaid i ysgolion hefyd drosglwyddo cofnod addysgol disgybl pan fo plentyn yn newid ysgol, ac mae'r rheoliadau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei throsglwyddo'n ddiogel gan ddefnyddio system **school-2-school** a ffeil drosglwyddo gyffredin yr Adran Addysg. Rhaid gwneud hyn cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl i ddisgybl roi'r gorau i gofrestru yn yr hen ysgol.

Mae SSCE Cymru yn argymell bod ysgolion yn annog disgyblion newydd i ddod â gwaith o'u hysgol flaenorol a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn ar gynnydd cynnar ac asesiadau cyflym i sefydlu llinellau sylfaen a phennu blaenoriaethau dysgu.

Gall ysgolion a rhieni ddefnyddio Offer SSCE Cymru i gynorthwyo gyda phontio esmwyth ar gyfer plant y lluoedd arfog.



*"Dw i'n hoffi clywed ei hanesion am ei deithiau.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Ymhlith yr offer sy'n arbennig o berthnasol i ddata plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol mae:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - Gwybodaeth am blant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Llythyr i rieni**
**Templed: Pecyn croeso yr ysgol**
**Rhestr wirio: Pontio i mewn ac allan o'r ysgol**
**Cwestiynau enghreifftiol: I'w gofyn i blentyn y Lluoedd Arfog o'r newydd**
**Cyflwyniad: Y Lluoedd Arfog a phrofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Llyfryn symud ysgol (i blant y Lluoedd Arfog)**
**Templed: Gwybodaeth am newid ysgol i blant y Lluoedd Arfog**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

## Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**. Mae astudiaethau achos sy'n arbennig o berthnasol i ddata plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol yn cynnwys:

- **Ysgol Uwchradd Aberhonddu (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Swyddog Cymorth Addysg HMF (Casnewydd a Sir Fynwy) – Defnyddio data'n effeithlon i gefnogi plant Milwyr**
- **Ysgol Uwchradd Crucywel (Powys) - Cefnogi anghenion iechyd meddwl a lles plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Feithrin Mount Street, (Powys) - Deall profiadau a heriau plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Gynradd CIW y Priordy (Powys) - Monitro ac olrhain plant y Lluoedd Arfog.**

## Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

ssce CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Iechyd meddwl a lles







Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
Profiadau plant y Lluoedd Arfog
Addysg yng Nghymru
Data plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol
Iechyd meddwl a lles
Darpariaeth Ieuenctid
Cyllid
Ymchwil a thystiolaeth

# Cynnwys

## Pecyn Gwaith i Ysgolion: Iechyd meddwl a lles

Iechyd meddwl a lles 56

Ymyraethau a chefnogaeth 57

Darpariaeth lles awdurdodau lleol 58

Darpariaeth lles ysgolion 59

Cymorth ac Adnoddau 62

# Iechyd meddwl a lles

*"7.1 Pan ofynnwyd pa adnoddau a fyddai'n fanteisiol i'w helpu i gefnogi plant milwyr, dywedodd 54% o ysgolion y byddent yn hoffi gwybodaeth ar gefnogaeth iechyd meddwl a lles i blant Milwyr."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

*"Mae ein hysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel i les. O ganlyniad, mae ein disgyblion o'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn grŵp allweddol o fyfyrwyr allai fod ag anghenion gwahanol megis darpariaeth mwy unigol ar rai adegau yn eu bywyd."*

Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr

*"Byddai unrhyw riant yn cytuno os byddant ar wahân i'w plentyn am gyfnod hir o amser, mae angen i ni roi pethau ar waith i'w gwneud yn haws i'r plentyn eu mabwysiadu ac i allu ffynnu yn ystod yr adeg yna o'u bywyd."*

Swyddog Lles Uned, Gwasanaethau Lles y Fyddin



## Beth yw iechyd meddwl a lles?

*"Mental health is not just the absence of mental disorder. 'a state of well-being in which every individual realizes his or her own potential, can cope with the normal stresses of life, can work productively and fruitfully, and is able to make a contribution to her or his community."*

Sefydliad Iechyd y Byd



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Bydd y Dull Hawliau Plant tuag at addysg yn diogelu anghenion hirdymor plant a phobl ifanc a byddant yn helpu i ddatblygu unigolion iach a hyderus sydd yn gallu dysgu a ffynnu. Mae gweithredu'r dull yma hefyd yn darparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc gyfrannu fel dinasyddion moesol, gwybodus yn eu cymunedau.

**Egwyddorion Dull Hawliau Plant yw:**

- Sefydlu hawliau plant
- Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
- Galluogi plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd.



Mae gan bob ysgol rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo ymrwymiad i iechyd a meddwl a lles cadarnhaol yng nghymuned eu hysgol, a gellir cyflawni hyn trwy ddull ysgol gyfan. Dylai ysgolion yng Nghymru roi CCUHP wrth wraidd profiad addysgu pob plentyn ac wrth wraidd cynllunio, addysgu a phenderfyniadau, polisïau ac arferion yr ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/

# Ymyraethau a chefnogaeth

*"Fel ysgol gallwn ddarparu agwedd lle rydym yn canolbwyntio ar les ac mae pob myfyriwr yn ein hysgol yn bwysig i ni. Mae gennym strategaethau ar waith ar gyfer teuluoedd y lluoedd arfog, mae gennym unigolyn cyswllt, maent yn gwybod pwy i gysylltu â nhw, rydym yn cysylltu'n rheolaidd â'n teuluoedd drwy fforwm rhieni Y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae ein disgyblion yn mynychu cyfarfodydd llysgenhadon a gallant ddweud wrth eu rhieni beth maent yn ei wneud. Mae gennym ddarpariaeth unigryw, rhaglenni arweinyddiaeth a chlybiau maent wedi gofyn i ni eu cynnal amser cinio i'w helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac fe allwn fynd i'r afael ag anghenion maent yn eu codi gyda ni – yn enwedig gan ein bod yn elwa o gyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr**

*"4.2 41% o ysgolion wedi nodi eu bod wedi rhoi ymyriadau penodol er mwyn cefnogi plentyn Milwr gydag anghenion penodol. Mae hyn yn llawer uwch, yn 66% wrth edrych ar bedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Cyngor Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg)."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

Mae manteision ymyraethau cynnar a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles yn cynnwys:

- Gall plant ddysgu strategaethau sydd yn gweithio ar eu cyfer nhw, er mwyn iddynt hunan-reoleiddio eu hymddygiad, a datblygu sgiliau gydol oes
- Anghenion unigol plant yn cael eu bodloni, eu helpu i ddatblygu eu cryfderau, gwydnwch emosiynol ac annibyniaeth
- Plant yn ymgysylltu'n well gyda'u dysgu ac yn gallu cael gwell mynediad i'r cwricwlwm
- Staff mewn ysgolion yn gallu cael dealltwriaeth, hyder a gwybodaeth gynyddol – felly maent wedi'u paratoi'n well i weithio gyda phlant allai fod angen cefnogaeth gydag anawsterau iechyd meddwl a lles
- Maent yn cefnogi'r perthnasoedd cadarnhaol a gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion, teuluoedd a phlant, gan arwain at ddull cyson tuag at ymddygiad gartref ac yn yr ysgol.

# Darpariaeth lles awdurdodau lleol

***4.4 7% o ysgolion wedi nodi eu bod wedi cael problemau yn cwrdd â throthwyon blaenoriaethu ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl a lles i blant Milwyr. Mae hyn yn uwch, yn 11% wrth edrych ar bedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Cyngor Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg)."***

**Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

## Awdurdodau Lleol

Ymwelwch â gwefannau eich awdurdod lleol am fanylion yn ymwneud â darpariaeth leol yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Cwnsela Annibynnol – gan gynnwys mewn ysgolion a chymunedau
- Lles addysg
- Seicoleg addysg
- Cymorth ymddygiad
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd – maent yn darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor am ddim ar amrywiaeth o faterion teulu, yn cynnwys: gofal plant a chymorth gyda'r gost, gofal iechyd, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau hamdden a chyllid
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Gwasanaethau ieuenctid – maent yn cynnig cefnogaeth/eiriolaeth/gwasanaethau ataliol/ymyrraeth gynnar i bobl ifanc 11-25 oed. Ewch i adran Darpariaeth Iechyd y pecyn gwaith hwn i gael rhagor o wybodaeth.

## Byrddau iechyd prifysgolion

Mae yna saith bwrdd iechyd ar gyfer 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ymateb i adborth gan gydweithwyr Fforwm y Lluoedd Arfog er mwyn gwella'r cynnig i flaenoriaethu gofal iechyd i blant Milwr. Cytunwyd i gyflymu atgyfeiriadau at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ar gyfer plant teuluoedd y lluoedd arfog. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad parhaus y bwrdd i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Caiff holl atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Pediatrig eu sgrinio er mwyn canfod os yw'r atgyfeiriad yn blentyn o deulu yn y Lluoedd Arfog.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i **Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru**.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

### Cefnogaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae CAMHS yn darparu amrywiaeth o ymyraethau a thriniaethau, sydd yn cynnwys ymgynghoriad, asesiad seicolegol, asesiad datblygiadol, therapi teulu, therapi unigol, therapi ymddygiad, meddyginiaeth a gwaith grŵp. Mae'n cefnogi plant hyd at 17 oed.

Os oes gan aelodau o dîm CAMHS ddiddordeb mewn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant Milwyr, i'w helpu nhw â'u cefnogaeth, gallant ymweld â **www.SSCECymru.co.uk** neu gysylltu â **SSCE@wlga.gov.uk**.

Fel rhan o ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog, dylai unrhyw amser sydd wedi cronni ar restrau aros y GIG mewn un lleoliad gael eu hystyried wrth symud i ardal newydd. Y cyngor yw cael copïau o unrhyw dystiolaeth a thriniaeth feddygol ategol i'w rhoi i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol/ymarferydd newydd.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i**

**www.nhs.uk/using-the-nhs/nhs-services/mental-health-services/child-and-adolescent-mental-health-services-camhs/**

## Darpariaeth lles ysgolion

Mae'r canlynol yn strategaethau a syniadau cefnogaeth ar gyfer ysgolion naill ai drwy ddull ysgol gyfan, gweithgareddau i'r dosbarth cyfan/neu grŵp, hyfforddiant a chyrsiau ar gyfer cefnogaeth gydag oedolyn ychwanegol neu adnoddau ychwanegol. Mae llawer o'r strategaethau yma'n cael eu defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru sydd â phlant milwyr ar hyn o bryd.

Gweler y rhan **astudiaethau achos** ar gyfer enghreifftiau da o ddarpariaeth iechyd meddwl a lles.

### Dyfarniad CCUHP

Mae ysgol sydd yn parchu hawliau, gan ddysgu ac addysgu am, drwy a dros hawliau, yn fethodoleg er mwyn rhoi Dyfarniad CCUHP ar waith yn ymarferol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**I gael rhagor o wybodaeth, ymwelwch â**

- **CCUHP UNICEF - crynodeb**
- **CCUHP - Adnoddau dysgu ac addysgu**
- **Comisiynydd Plant Cymru - adnoddau**



*"Pan fyddaf i'n flin byddaf yn defnyddio technegau myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar.*

## Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu

Nod yr adnodd cwricwlwm hwn yw datblygu rhinweddau a sgiliau ategol sydd yn helpu i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a dysgu effeithiol. Mae'n canolbwyntio ar bump agwedd cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu:

- Hunan ymwybyddiaeth
- Rheoli teimladau
- Ysgogiad
- Empathi
- Sgiliau cymdeithasol.

Mae'r deunyddiau yn helpu plant i feithrin sgiliau megis deall safbwyntiau eu gilydd, gweithio mewn grŵp, dyfalbarhau wrth i bethau ddod yn anodd, datrys gwrthdaro a rheoli pryderon. Maent yn adeiladu ar waith effeithiol sydd eisoes ar waith mewn nifer o ysgolion cynradd sydd yn talu sylw systematig i agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu trwy ethos ysgol gyfan. Mae mentrau'n cynnwys Amser Cylch neu gynlluniau bydi, a'r cwricwlwm Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Addysg Iechyd a Dinasyddiaeth.

Dim ond drwy lawrlwytho nifer o adnoddau y maent bellach ar gael **webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110812101121/http://nsonline.org.uk/node/87009**

## Heads Together

Fe lansiwyd ym mis Awst 2019 ac mae'r fenter iechyd meddwl yn cael ei arwain gan Sefydliad Brenhinol Dug a Duges Caergrawnt a Dug a Duges Sussex. Mae'n cyfuno ymgyrch i fynd i'r afael â stigma a newid y sgwrs am iechyd meddwl trwy godi arian ar gyfer cyfres o wasanaethau iechyd meddwl newydd ac arloesol.

**www.headstogether.org.uk/**

## Ysgolion sy'n Feddyliol Iach

> ***"Bydd un ym mhob deg plentyn yn profi anawsterau iechyd meddwl o leiaf unwaith cyn iddynt fod yn 11 oed, a gall nifer o oedolion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl gydol eu hoes olrhain eu symptomau yn ôl i'w plentyndod. Fe wyddom hefyd y gall nifer o blant aros hyd at ddeng mlynedd cyn iddynt gael diagnosis neu driniaeth effeithiol. Gall cefnogaeth iechyd meddwl mewn ysgolion wneud gwahaniaeth sylweddol i fywyd person, ond mae athrawon yn gweithio i'r eithaf fel y mae, a gyda chymaint o adnoddau ar gael, gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau."***

Mae rhan o fenter Heads Together, Ysgolion sy'n Feddyliol Iach yn dwyn ynghyd wybodaeth, cyngor ac adnoddau o ansawdd i helpu ysgolion cynradd i ddeall a hyrwyddo iechyd meddwl a lles plant. Ei nod yw cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyder staff i helpu i gefnogi disgyblion.

**www.mentallyhealthyschools.org.uk/about**

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i **Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru**.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Gwasanaethau cwnsela annibynnol

Yng Nghymru mae cwnsela yn ddarpariaeth gynhwysol i ddisgyblion Blwyddyn Chwech a rhai 11-18 oed y gallant ei ddefnyddio os ydynt yn drist, yn poeni, yn ddryslyd neu'n ofnus. O fewn ysgolion, mae cwnsela yn cyd-fynd ag agweddau gwahanol sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

[www.llyw.cymru/gwasanaethau-cwnsela-annibynnol-canllawiau-i-awdurdodau-lleol](www.llyw.cymru/gwasanaethau-cwnsela-annibynnol-canllawiau-i-awdurdodau-lleol)

## Cyfeiriadur cwnsela

Fe'i sefydlwyd gan dîm sydd yn gwybod pa mor anodd y gall fod i ddod o hyd i'r gefnogaeth a gwybodaeth y mae pobl ei angen, fe lansiwyd Counselling Directory yn 2005 ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda chwnselwyr, seicotherapyddion ac ymwelwyr i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaeth gorau. Mae dros 10,000 o gwnselwyr cymwys wedi'u rhestru ar Counselling Directory.

[www.counselling-directory.org.uk/](www.counselling-directory.org.uk/)

## Cwrs Lles Little Troopers

Mae'r cwrs cyntaf o'i fath yma wedi'i ddylunio i annog plant yng nghymuned y Lluoedd Arfog i archwilio'r heriau unigryw y maent yn eu hwynebu tra bod eu rhieni yn y Lluoedd Arfog.

Mae'r pecyn cynhwysfawr yn cynnwys yr holl adnoddau sydd ei angen ar gyfer y cwrs rhyngweithiol sy'n addas i blant, sydd yn cynnwys saith sesiwn. Mae'r pynciau'n cynnwys sut i ymdopi â gwahanu, adleoli, symud tŷ a byw dramor, yn ogystal â themâu personol o ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'n rhaid talu am y pecyn ac mae adnoddau eraill ar gael ar y wefan.

Fe grëwyd y cwrs gan grŵp o arbenigwyr, yn cynnwys arbenigwr therapi gwybyddol ymddygiadol, seicotherapydd celfyddydau creadigol a therapyddion chwarae, ar y cyd â sylfaenydd Little Troopers: Cyn filwr a rhiant y Lluoedd Arfog Louise Fetigan.

[www.littletroopers.net/wellbeing-course/](www.littletroopers.net/wellbeing-course/)

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i **Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru**.



*"Dw i'n poeni am fwlis.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymorth ac Adnoddau

*"Mae'r pecyn ymadael wedi bod yn gymorth mawr gyda James. Mae o'n bositif iawn am symud rŵan. Ychydig wythnosau nôl roedd o'n eithaf nerfus ac yn poeni am adael Cymru. Mae'n eithaf syml: ychydig o ddarnau o bapur ac ychydig o focsys – beth wyt ti'n meddwl amdanat dy hun, beth wyt ti wedi'i gyflawni, beth wyt ti eisiau ei wneud yn y dyfodol. Syml iawn, ond yn effeithiol tu hwnt."*

**Rhiant plentyn milwr**

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Mae sefydliadau/rhaglenni'n cynnwys:

- Change Step
- TGP Cymru
- Thrive
- Nurture
- Cymorthyddion Cefnogaeth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)
- Therapi Lego
- Adnoddau Cyfathrebu Blob Tree
- Model amser cylch.

## Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae adnoddau sy'n berthnasol iawn i Iechyd meddwl a lles yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - Gwybodaeth am blant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Pecyn croeso yr ysgol**
**Rhestr wirio: Pontio i mewn ac allan o'r ysgol**
**Cwestiynau enghreifftiol: I'w gofyn i blentyn y Lluoedd Arfog o'r newydd**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Cyngor: Adnoddau a Argymhellir**
**Templed: Llyfryn symud ysgol (i blant y Lluoedd Arfog)**
**Templed: Gwybodaeth am newid ysgol i blant y Lluoedd Arfog**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

## Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**. Mae astudiaethau achos sydd yn berthnasol iawn i gefnogaeth iechyd meddwl a lles yn cynnwys:

- **Ysgol Plascrug (Ceredigion) – Cymorth bugeiliol wedi ei deilwra ar gyfer plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Uwchradd Crucywel (Powys) – Cefnogi anghenion iechyd meddwl a lles plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Gynradd Kymin View (Sir Fynwy) - Cydweithrediad Ysgol i gefnogi plant y Gwasanaeth**
- **Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr (Bro Morgannwg) - Defnydd effeithiol o arian i gefnogi plant y Lluoedd arfog**
- **Ysgol Gynradd Brynmill (Abertawe) – Cefnogaeth fugeiliol wedi'i deilwra i blant y Lluoedd Arfog.**

## Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**

## Deunydd i'w ddarllen

SSAFA: Canllaw Fforwm Anghenion Ychwanegol ac Anableddau y Lluoedd Arfog
**www.ssafa.org.uk/get-help/disability-support/additional-needs-and-disability-support**

Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) a Llywodraeth Cynulliad Cymru: Adnoddau gweithredu cwnsela mewn ysgolion
**www.bacp.co.uk/events-and-resources/home/**

Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain Cwnsela yn yr ysgol i bawb
**www.bacp.co.uk/media/2127/bacp-school-based-counselling-for-all-briefing-dec15.pdf**

GIG: Pum cam i les meddyliol
**www.nhs.uk/conditions/stress-anxiety-depression/improve-mental-wellbeing**



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Darpariaeth Ieuenctid







# Cynnwys

**Pecyn Gwaith i Ysgolion: Darpariaeth Ieuenctid**

Beth yw darpariaeth ieuenctid? 66

Pam bod darpariaeth ieuenctid yn bwysig i blant milwyr? 68

Darpariaeth Ieuenctid yng Nghymru 69

Cymorth ac Adnoddau 70

# Beth yw darpariaeth ieuenctid?

*"Erthygl 15: Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau gallwch fod"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

*"Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae"*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn gyfres o wasanaethau statudol dan Adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, sy'n nodi'r canlynol:

**Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol:**

a) i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid;
b) i sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid;
c) i gymryd rhan yn narpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid.

**Yn yr adran hon, golyga "gwasanaethau cymorth ieuenctid" y gwasanaethau fydd, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, yn annog, galluogi neu'n helpu pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol):**

(a) i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,
(b) i fanteisio ar gyfleoedd am waith, neu
(c) i gymryd rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Yn yr adran hon, golyga "pobl ifanc" bobl sydd wedi cyrraedd 11 oed ond heb gyrraedd 26 oed.

**Gall y math o ddarpariaeth ieuenctid gynnwys:**

- Achredu
- Clybiau ar ôl ysgol
- Cwricwlwm amgen
- Y celfyddydau a drama
- Gwobr Dug Caeredin
- Ewropeaidd a rhyngwladol
- Rhyw benodol
- Iechyd a lles
- Cynlluniau gwyliau
- Digwyddiadau gwybodaeth a marchnata
- Technoleg gwybodaeth
- Grwpiau lleiafrifol
- Cyfranogi/fforymau/cynghorau
- Preswyl
- Chwaraeon a gweithgareddau corfforol
- Darpariaeth sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg/diwylliant

***"Roeddwn i'n edrych ymlaen at weld ffrindiau yr oeddwn i wedi eu gwneud o'r blaen; roedden nhw'n mynd i'r ysgol yr oeddwn i'n symud iddi.***



## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn cyfeirio at y fframwaith a ddefnyddir i ddarparu gwaith ieuenctid, ac fe wneir hynny'n bennaf drwy'r awdurdod lleol a sefydliadau ieuenctid gwirfoddol lleol a chenedlaethol.

Mae gwaith ieuenctid yn cynnwys addysg a datblygiad cymdeithasol a phersonol pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed (yn arbennig pobl ifanc 13-19 oed) a chaiff ei ddarparu mewn amrywiaeth o leoliadau fel clybiau ieuenctid; lleoliadau preswyl; canolfannau gwybodaeth, cyngor a chwnsela; ar y stryd; mewn mannau cyhoeddus y mae pobl ifanc yn cwrdd; a thrwy brosiectau penodol.

Mae gwaith ieuenctid yn broffesiwn ynddo'i hun gyda fframwaith cymwysterau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'n rhaid i weithwyr Ieuenctid proffesiynol sy'n gweithio i awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

# Pam bod darpariaeth ieuenctid yn bwysig i blant milwyr?

Fe ddysgir llawer o "allu cymdeithasol" drwy weld a gwneud, drwy brofi a methu yn ogystal â llwyddo – gan ennill y gallu i ymdopi â methiant, i fownsio'n ôl a dysgu o'r profiad. Mae gwaith ieuenctid, fel darpariaeth addysgol gyflenwol, yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed adeiladu ac ailadeiladu agweddau o'u bywydau, a myfyrio a gwerthuso. Yn ogystal â hynny mae yna raglenni dysgu ar gael sy'n defnyddio gwahanol dechnegau mewn amgylchedd gyda chefnogaeth, gan gynnig dewis amgen i bobl ifanc sydd eisiau cyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a'r gwaith ieuenctid yn rhoi cyfle i bobl ifanc, beth bynnag eu cefndir, eu gallu a'u hamgylchiadau, ddatblygu eu lles personol a chymdeithasol, derbyn addysg ffurfiol ac anffurfiol a gwella eu cyflogadwyedd a'u gobeithion mewn bywyd. Mae manteisio ar berthnasau gydag oedolion dibynadwy, grŵp cyfoedion cadarnhaol a'r cyfle i ddysgu o amrywiaeth o gyfleoedd newydd sy'n canolbwyntio ar bobl yn hytrach na phroblemau, yn brosesau hollbwysig wrth i bobl ddatblygu'n oedolion.

Cydnabyddir yn eang bod cyrhaeddiad addysgol ffurfiol yn gwella'n aruthrol pan fo athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol ehangach, e.e. llwyddiant y rhaglenni Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) a ddefnyddir gyda phlant a phobl ifanc o bob gallu.

*"Ym myd plant milwyr, lle mae newid ysgol a lleoliad yn rhywbeth arferol iawn, mae derbyn gwasanaethau cymorth ieuenctid o ansawdd da yn allweddol i wneud yn siŵr bod y bobl ifanc yn derbyn 'y cychwyn gorau mewn bywyd' beth bynnag eu hamgylchiadau unigryw."*

**Swyddog Datblygu Cymunedol, RAF y Fali**

*"Mae gan blant milwyr gyfoeth o rinweddau cadarnhaol, felly mae'n hollbwysig eu bod yn derbyn y cyfle i wneud y mwyaf o'r rhain yn ystod eu haddysg. Mae nodweddion unigryw bywyd yn y lluoedd arfog, gan gynnwys y gofynion emosiynol a symud o le i le, yn golygu bod yn rhaid i'r gymuned addysgol ddeall ac ymgysylltu â bywydau'r plant wrth iddynt ddatblygu eu hymarfer."*

**Dr Michael Hall, Cynghrair SCiP**

*"Mae gwaith ieuenctid yn rhoi cyfle i dderbyn addysg drwy ddull gwahanol, sy'n llai ffurfiol nag ysgol neu sefydliad addysg bellach ac sy'n aml iawn yn cael ei arwain gan y person ifanc. Mae'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gyda phobl ifanc 11-25 oed ac mae'n cynnig pwynt mynediad i wasanaethau eraill a all fod eu hangen yn ystod y berthynas gyda'r person ifanc – mae gweithwyr ieuenctid yn adnabod eu cymunedau yn dda ac yn froceriaid medrus i wasanaethau eraill heb y stigma arferol sydd ynghlwm wrth hynny."*

**Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (ieuenctid), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

*"Mae darpariaeth ieuenctid i blant milwyr yn bwysig gan ei bod yn darparu ffordd sydyn, hawdd a chyfeillgar iddyn nhw ymgyfarwyddo â'u lleoliadau newydd pan fyddant yn symud o le i le gyda'u teuluoedd. Mae yna ychydig o barhad wrth ddefnyddio gwasanaethau AWS ar draws y wlad sy'n gallu cynnig cymorth a chyfeillgarwch a rhoi'r ymdeimlad o 'berthyn' sydd, yn ei dro, yn helpu pobl ifanc yn ystod cyfnod yn eu bywydau sy'n gallu bod yn anodd iawn."*

**Gweithiwr Datblygu Cymorth Cymunedol, Gwasanaeth Lles y Fyddin**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

***"Yng Nghymru, mae gwaith ieuenctid yn bennaf yn seiliedig ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Mae'n hawl gyffredinol, sydd ar gael i bob person ifanc 11-25 oed. Pwrpas allweddol gwaith ieuenctid yw 'galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu lleisiau, dylanwad a lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu llawn botensial' (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid)."***

**Prif Weithredwr, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol**

# Darpariaeth Ieuenctid yng Nghymru

## Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r egwyddorion lefel uchel a nodir yn y ddogfen hon wedi'u datblygu ar y cyd â phobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid. Mae'r strategaeth yn nodi cyfres o gamau gweithredu, sydd wedi'u hategu gan gynllun gweithredu, a fydd yn ein symud ni'n nes at nodau hirdymor Llywodraeth Cymru.

https://llyw.cymru/strategaeth-gwaith-ieuenctid-2019

## Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru

Mae'r gymuned ddysgu broffesiynol hon o swyddogion yn cynnwys arweinwyr strategol gwasanaethau ieuenctid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

www.wlga.cymru/principal-youth-officers-group-wales

## Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Cynllun gweithredu'r fframwaith hwn yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc 16-25 oed ym myd gwaith, addysg neu hyfforddiant.

https://llyw.cymru/fframwaith-ymgysylltu-datblygu-ieuenctid-cynllun-gweithredu

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae'r sefydliad yma yn darparu gwybodaeth am nifer o wasanaethau yn yr ardal, gan gynnwys darpariaeth ieuenctid.

www.ggd.cymru

## Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

Mae'r corff cynrychioladol ar gyfer y sector ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, y cyngor, yn gorff elusennol annibynnol sy'n hyrwyddo gwaith ieuenctid o ansawdd ac yn cynrychioli buddiannau ei aelodau a'r sector ehangach.

www.cwvys.org.uk/cy/

## Darpariaeth ieuenctid lleol

Ynghyd â rhaglenni ieuenctid cenedlaethol, mae yna nifer o sefydliadau yn cynnig cynlluniau lleol. Ewch i wefan yr awdurdod lleol am fwy o wybodaeth.

- Abertawe
- Blaenau Gwent
- Bro Morgannwg
- Caerdydd
- Caerffili
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Ceredigion
- Conwy
- Gwynedd
- Merthyr Tudful
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Sir Ddinbych
- Sir Fynwy
- Sir Gâr
- Sir Penfro
- Sir y Fflint
- Torfaen
- Wrecsam
- Ynys Môn

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

### Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae'r canllawiau sy'n berthnasol i ddarpariaethau ieuenctid yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Gwefan Ysgol - Gwybodaeth am blant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Hyrwyddo darpariaeth ieuenctid**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Cyngor: Adnoddau a Argymhellir**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

### Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**. Mae'r astudiaethau achos sy'n berthnasol i ddarpariaethau ieuenctid yn cynnwys:

- **Hyrwyddwr Plant y Lluoedd Arfog YEP (Rhondda Cynon Taf) - Effaith gadarnhaol darpariaeth ieuenctid**
- **Swyddog Datblygu Cymunedol (RAF Y Fali, Ynys Môn) - Gweithgareddau a darpariaeth ieuenctid i blant y Lluoedd Arfog**

### Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

ssce CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Cyllid







# Cynnwys

**Pecyn Gwaith i Ysgolion: Cyllid**

Cyllid addysg gynhwysol yng Nghymru 73
Dim Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog yng Nghymru 73
Cyllid ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru 74
Cyllid SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru 75
Cymorth ac Adnoddau 76

*"Rydym ni'n derbyn budd-dal gan Gronfa Cymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae hynny wedi ein helpu ni i gynnig darpariaeth na fyddai o bosibl wedi bodoli yn ein hysgol fel arall."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr**

## Cyllid addysg gynhwysol yng Nghymru

Gan fod addysg wedi'i datganoli yng Nghymru, mae yna ddull arall ar gyfer cyllid grant sy'n rhoi'r gorau i dargedu grwpiau penodol ac yn ceisio sicrhau bod pob grant yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddysgwyr, gan gynnwys plant milwyr. Mae cyllid yn ei le i gefnogi pob dysgwr i sicrhau nad ydynt dan anfantais.

## Dim Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog yng Nghymru

Mae'r Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog sydd ar gael yn Lloegr yn dyfarnu £300 am bob plentyn milwr er mwyn helpu i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol yn ystod cyfnodau pan mae'r rhiant oddi cartref yn gwasanaethu yn y fyddin ac i leihau'r anfanteision a all fod yn wynebu'r plant.

Nid oes, ar hyn o bryd, unrhyw gyllid penodol i gefnogi plant milwyr yng Nghymru fel grŵp. Mae'n rhaid i ysgolion ddefnyddio'r cynlluniau grant isod i dderbyn cyllid i gefnogi plant milwyr.

*"Mae'r Lleng yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ac adnewyddu'r Gronfa Cefnogi Plant Milwyr yng Nghymru. Mae ysgolion yng Nghymru wedi llwyddo i ddiogelu cyllid ac yn darparu gwaith ardderchog o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r Lleng o'r farn bod diffyg Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog yn rhoi plant milwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill o'r DU."*

**Rheolwr Ymgyrchoedd ar gyfer Cymru, y Lleng Brydeinig**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ychwanegu cwestiwn am blant milwyr yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC).

Mae Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adolygu effaith y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog yn Lloegr. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi yn 2020.

Unwaith y mae'r data a'r dystiolaeth wedi'u casglu, bydd yn rhoi cyfle i SSCE Cymru ymchwilio i oblygiadau a buddion premiwm o'r fath yng Nghymru, er mwyn gweld a ddylid ystyried cynnal trafodaethau pellach ar y pwnc yma.

*"Mae gennym ni berson cyswllt ar gyfer teuluoedd y lluoedd arfog. Maen nhw'n gwybod gyda phwy y gallan nhw gysylltu. Rydym ni'n cadw mewn cysylltiad â'n teuluoedd ac rydym ni'n gallu mynd i'r afael â'u hanghenion – yn arbennig gan ein bod ni'n derbyn budd-dal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn."*

**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr**

# Cyllid ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru

*"Mae ysgolion yn y pedwar awdurdod lleol allweddol (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg) 18% yn fwy tebyg o gael mynediad i gyllid i gefnogi plant milwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â'u hymwybyddiaeth well o anghenion plant milwyr."*

**Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

Mae ysgolion ledled Cymru'n bod yn rhagweithiol iawn ac yn gwneud gwaith gwych i sicrhau nad yw plant milwyr dan anfantais yn sgil bod yn rhan o un o deuluoedd y Lluoedd Arfog. Ewch i wefan SSCE Cymru i weld astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion da.

Weithiau, mae angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gael mynediad at gyllid ychwanegol er mwyn parhau i gefnogi plant milwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol. Roedd SSCE Cymru yn cydnabod nad yw bob amser yn hawdd darganfod pa gyllid sydd ar gael, pa grantiau sydd fwyaf perthnasol i brosiect a sut yw'r ffordd orau i fynd ati i lenwi'r ffurflenni cais.

Yn 2019, roedd nifer o ffrydiau cyllid ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol, gan gynnwys:

**Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg – Cronfa Cymru:**
- £250,000 ar gael i helpu ysgolion yng Nghymru i ddeall anghenion plant milwyr a rhoi'r sgiliau iddyn nhw i ymdopi â heriau'r ffordd o fyw filwrol, drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

**Cronfa Cefnogi Addysg – Y Weinyddiaeth Amddiffyn:**
- £2 filiwn ar gael i ysgolion ledled y DU i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i oresgyn yr heriau sydd yn eu hwynebu yn sgil symudedd ac/neu ymfyddiniad sylweddol.

**Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog – Grantiau Lleol:**
- Hyd at £20,000 ar gael i gefnogi prosiectau ledled y DU sydd naill ai'n helpu i integreiddio cymunedau'r Lluoedd Arfog a rhai sifilaidd ar draws y DU, a/neu'n darparu gwasanaethau lleol gwerthfawr i gymuned y Lluoedd Arfog.

**Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog**
- Mae grantiau Cyfunol a Chydweithredol ar gael i helpu i leddfu'r anawsterau sy'n digwydd o bryd i'w gilydd gydag addysg plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yn sgil gwasanaeth eu rhieni.

I dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y cronfeydd cliciwch yma.

# Cyllid SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru

*"7.1 Pan ofynnwyd pa adnoddau fyddai'n fuddiol i'w helpu i gefnogi plant Milwyr, dywedodd 58% o ysgolion yr hoffan nhw dderbyn canllawiau ar gyllid."*

Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)

Yn 2019 creodd grŵp o fudd-ddeiliaid SSCE Cymru ddogfen er mwyn darparu canllaw i ysgolion ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar y ffrydiau grant sydd ar gael, ynghyd â chyngor ar lenwi'r ffurflenni cais. Daw'r cyngor hwn gan aelodau o'r paneli cyllid, yn ogystal ag ysgolion ac awdurdodau lleol sydd wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am y grantiau.

Am fwy o wybodaeth am y canllawiau, cliciwch yma.

Cyn gwneud cais am unrhyw gyllid i gefnogi plant milwyr, cynghorir ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i dreulio ychydig o amser yn ymgysylltu ag adnoddau SSCE Cymru a chysylltu â SSCE@wlga.gov.uk i drafod y prosiect/cynnig.




*"Dw i'n hoffi clywed ei hanesion am ei deithiau.*

*"Rydym ni'n defnyddio Facetime weithiau.*

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Mae'r canllawiau sy'n berthnasol i gyllid yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Llythyr i rieni**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Holiadur Rhiant/Gofalwr**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

## Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**. Mae'r astudiaethau achos sy'n berthnasol i gyllid yn cynnwys:

- **Ysgol Plascrug (Ceredigion) – Cymorth bugeiliol wedi ei deilwra ar gyfer plant y Lluoedd Arfog**
- **Ysgol Uwchradd Llanwrtyd Fawr (Bro Morgannwg) - Defnydd effeithiol o arian i gefnogi plant y Lluoedd arfog**
- **Ysgol Gynradd Gilwern (Sir Fynwy) – Defnydd effeithiol o gyllid i gefnogi plant milwyr**
- **Ysgol Gynradd Prendergast (Sir Benfro) - Cefnogi plant y Lluoedd Arfog i bontio**
- **Ysgol Gynradd Brynmill (Abertawe) – Cefnogaeth fugeiliol wedi'i deilwra i blant y Lluoedd Arfog**

## Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

ssce CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Ymchwil a thystiolaeth








Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
Profiadau plant y Lluoedd Arfog
Addysg yng Nghymru
Data plant y lluoedd arfog a derbyniadau ysgol
Iechyd meddwl a lles
Darpariaeth Ieuenctid
Cyllid
Ymchwil a thystiolaeth

# Cynnwys

## Pecyn Gwaith i Ysgolion: Ymchwil a thystiolaeth

Tystiolaeth SSCE Cymru 79
Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol 81
Cynghrair Datblygu Plant y Lluoedd Arfog (SCiP) 81
Tystiolaeth ar effaith o fod yn Blentyn y Lluoedd Arfog 83
Cymorth ac Adnoddau 84

Un o'r tri maes allweddol cenhadaeth SSCE Cymru yw **Ymchwil a thystiolaeth:**

*Cynnal a chomisiynu ymchwil i brofiadau plant milwyr mewn addysg – i helpu adnabod lle maen nhw'n wynebu heriau ychwanegol. Defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i lunio canolbwyntiau a gwaith SSCE Cymru.*

Mae hyn yn effeithio ar ddau faes allweddol arall o genhadaeth SSCE Cymru, sef:

- Cynnal gweithgareddau a chynhyrchu adnoddau
- Effeithio polisïau a systemau

# Tystiolaeth SSCE Cymru

Yn 2019, cyflawnodd SSCE Cymru amryw weithgareddau i ddeall anghenion ysgolion, Plant y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Mae safbwyntiau ysgolion a phlant y Lluoedd Arfog wedi bod yn allweddol wrth gefnogi a chynllunio'r Pecyn Gwaith Ysgol SSCE Cymru ac adnoddau newydd.

## Arolwg Ysgol

Bu i 167 o ysgolion ledled Cymru gyfrannu manylion am eu profiadau o gefnogi plant milwyr mewn addysg drwy arolwg ar-lein.

Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

### Yr heriau sy'n wynebu plant y Lluoedd Arfog

- Yr her fwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion cynradd oedd yr effaith emosiynol o fod ar wahân.
- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion uwchradd oedd gwneud ffrindiau a methu cynnwys cwricwlwm.

### Yr heriau sy'n wynebu ysgolion wrth gefnogi plant y Lluoedd Arfog

- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion cynradd oedd cefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion emosiynol a lles, a deall ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog.
- Yr heriau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ysgolion uwchradd yw cefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda bylchau yn eu haddysgu a chael gwybodaeth gan ysgolion blaenorol plentyn y Lluoedd Arfog.
- Ysgolion o bedwar awdurdodau lleol allweddol sydd â chysylltiadau amlwg â'r gymuned y Lluoedd Arfog (Ynys Môn, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg) yn fwy ymwybodol o'r heriau y mae plant milwyr yn eu hwynebu mewn addysg, o'i gymharu ag ysgolion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, er hynny roeddynt yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o gymorth i'w cefnogi.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Cymorth Ysgol i Blant y Lluoedd Arfog

- Y gefnogaeth orau a gynigir gan ysgolion i blant â rhieni yn y Lluoedd Arfog yw cefnogaeth fugeiliol wedi'i deilwra, drwy gael aelod o staff pwrpasol i gefnogi plant â rhieni yn y Lluoedd Arfog
- Roedd canran sylweddol o ysgolion wedi rhoi ymyriadau penodol ar waith i gefnogi plant y Lluoedd Arfog neu eu hatgyfeirio am gefnogaeth Iechyd Meddwl a Lles. Roedd nifer o'r ysgolion hyn gyda problemau â bodloni'r trothwy blaenoriaethu, a oedd yn anfantais i blant y Lluoedd Arfog.

I weld y canfyddiadau llawn o'r arolwg, ewch i **Canfyddiadau arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**

## Gwrando ar blant y Lluoedd Arfog

Bu i SSCE ymweld â nifer o ysgolion ledled Cymru i gynnal grwpiau trafod gyda phlant y Lluoedd yr Arfog, i wrando ar eu profiadau a chael gwybodaeth am y math o gefnogaeth yr hoffent ei gael. Bu i 115 o blant y Lluoedd Arfog o 14 ysgol gymryd rhan yn y prosiect.

### Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Nifer o bynciau trafod wedi ysgogi ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol a negyddol.
- Un neges gyson drwy'r trafodaethau ynghylch symudedd, yw'r pwysigrwydd y gefnogaeth y mae teulu a ffrindiau yn ei roi i blant y Lluoedd Arfog, a'r safbwynt negyddol o'u gadael/ bod i ffwrdd ohonynt.
- Yn amlwg, mae'r mwyafrif o sylwadau a safbwyntiau gan blant y Lluoedd Arfog, ynghylch eu profiadau o anfon milwyr yn eithaf negyddol. Defnyddir ystod o fecanweithiau ymdopi gan blant y Lluoedd Arfog i ddelio â'u hemosiynau a'u teimladau yn ystod adleoli.
- Bu i drafodaethau ynghylch eu profiadau o fyw a chael eu haddysgu yng Nghymru ysgogi ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol a negyddol, ond roeddynt yn bennaf gadarnhaol.

Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu bwydo i mewn i brosiect Blwyddyn Llais y Plentyn y Lluoedd Arfog **Cynghrair SCiP**.

Mae'r adroddiad llawn ar **Canfyddiadau gwrando ar blant milwyr (2020)**.



*"Doeddwn i ddim yn deall yr iaith pan oeddwn i'n byw tramor.*



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan SSCE Cymru a'i gynnal gan Brifysgol De Cymru ac Ymchwil Arad yn edrych ar yr heriau o adnabod, asesu a gweithredu cefnogaeth ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru. Mae'n edrych ar effaith y cod ymarfer ALN newydd ar blant y Lluoedd Arfog sydd yn byw ac yn symud i Gymru.

**Mae'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:**

- Cyd-destun Polisi
- Adolygiad llenyddiaeth
- Adborth o Gynhadledd SSCE Cymru 2017
- Dadansoddi data arolwg o ysgolion
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol
- Meysydd ar gyfer ystyriaeth bellach

*"…. dylid nodi bod y ganran o blant y Lluoedd Arfog (6.1%) sy'n cael cymorth ar y lefel hon yn llai o lawer na chanran yr holl ddisgyblion (11.17%) yn y sampl gyfan. …mae'r gwahaniaeth o bum pwynt canran yn ddiddorol gan ei bod yn ymddangos ei fod yn ategu sylwadau a gafwyd yn ystod cam ansoddol yr ymchwil, lle'r oedd rhieni, ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi mynegi'r farn bod Anghenion Dysgu Ychwanegol plant y Lluoedd Arfog sydd â lefelau angen is yn fwy tebygol o beidio â chael eu hadnabod a'u diwallu. Un eglurhad posibl o hyn yw bod natur grwydrol y boblogaeth hon yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd unrhyw ddulliau dysgu gwahaniaethol cychwynnol yn cael eu gwerthuso a'u troi wedyn yn gymorth drwy Gweithredu gan yr Ysgol."*

**Adroddiad Plant y Lluoedd Arfog sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018)**

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma.

# Cynghrair Datblygu Plant y Lluoedd Arfog (SCiP)

*"Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau gallwch fod."*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Service Children's Progression ALLIANCE

Mae gan Gynghrair SSiP weledigaeth o fywydau ffyniannus i blant y Lluoedd Arfog. Mae'n cefnogi cyfranogwyr addysg a sefydliadau partner i hyrwyddo cynnydd plant aelodau'r Lluoedd Arfog, fel y gallent drosglwyddo yn hyderus a hyddysg drwy addysg bellach ac addysg uwch, i fywydau a gyrfaoedd ffyniannus fel oedolyn.

Mae Cynghrair SCiP yn ymlid y weledigaeth a chenhadaeth hwn drwy arwain ar gydweithio i ddatblygu sail tystiolaeth gadarn, cysylltu a chefnogi cyfranogwyr a dylanwadu'r amgylchedd polisi.

Mae SSCE Cymru yn aelod o'r Grŵp Ymarfer Cynghrair SCiP ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu cynnal.

Mae Cynghrair SCiP yn cynhyrchu nodiadau briffio sydd yn helpu i grynhoi ymchwil ac i ddarparu argymhellion ar gyfer ymarfer a pholisi. Mae pynciau yn cynnwys cydnerthedd a symud ysgolion. Gellir gweld y cyfres o nodiadau briffio yma.



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

## Datblygu Plant y Lluoedd Arfog i addysg bellach ac addysg uwch

***"Mae'n annhebygol bod pedwar o bob deg plentyn y Lluoedd Arfog â'r gallu i ddatblygu i addysg uwch yn gwneud hynny."***

**McCullouch and Hall (2016), Addysg bellach ac addysg uwch Datblygu Plant y Lluoedd Arfog**

Mae Cynghrair SCiP wedi ymrwymo i wella canlyniadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog. "Maent angen gwybod yn well cyn y gallent wella." Dyma pam mai canolfan ymarfer ymchwil yw Cynghrair SCiP.

I weld yr ymchwil llawn, ewch i **www.scipalliance.org/research/scip-alliance-research-group**

### Ymgynghoriad rhanddeiliaid Cynghrair SCiP 2018

Mewn ymarfer ymgynghori rhanddeiliaid yn 2018, roedd y mwyafrif o ymatebwyr, 50% sy'n gweithio mewn ysgolion, wedi dweud wrth Gynghrair SCiP eu bod wedi arsylwi bod profiadau plant y Lluoedd Arfog yn cael effaith ar eu haddysg, sydd yn wahanol iawn i'r heriau a chyfleoedd y mae'r grwpiau eraill yn eu profi.

**Nodwyd y ffactorau risg allweddol fel:**

- Sefyllfa ganolog y Lluoedd Arfog ym mywydau teuluoedd y Lluoedd Arfog.
- Symudedd
- Gwahanu teulu
- Trosi i fywyd dinesydd

**Teimlwyd mai'r prif effeithiau'r ffactorau hyn ar addysg oedd:**

- Straen cyfnodol ar deulu
- Meddylfryd dros dro
- Profiadau "plentyn y Lluoedd Arfog" yn siapio dyheadau.

I weld yr adroddiad llawn a chrynodeb weithredol, ewch i **www.scipalliance.org/resources/the-scip-alliance-stakeholder-consultation-2018**

### SCiP Alliance – Hwb Cymru

***"Helpu gweithwyr proffesiynol gyflawni gyda'i gilydd beth na ellir ei gyflawni ar ben eu hunain."***

**Cynghrair SCiP**

Mae'r rhwydwaith Cynghrair SCiP o ganolfannau rhanbarthol yn dod â phartneriaeth ynghyd sydd yn cysylltu â rhanddeiliaid fel y gallent:

- Galluogi cydweithio newydd a gwell
- Hwyluso cyfathrebu
- Adeiladu gallu a galluogrwydd
- Estyn allan i randdeiliaid newydd
- Cyfathrebu, cyfrannu a thynnu o'r Grŵp Ymarfer Cynghrair SCiP a Bwrdd Strategol.
- **Rhannu ac ymateb ar y cyd i:**
  - Ymarfer effeithiol
  - Heriau
  - Syniadau
  - Blaenoriaethau
  - Cwestiynau

**Mae Cynghrair SCiP – Hwb Cymru** yn cael ei arwain gan Brifysgol De Cymru a SSCE Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2019.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer y Brifysgol, cliciwch **yma**.





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Tystiolaeth ar effaith o fod yn Blentyn y Lluoedd Arfog

## Adroddiad Anafusion Gwrthdaro sy'n cael eu Hesgeuluso

Comisiynwyd gan y Gronfa Plant Môr-Filwyr Brenhinol y Llynges Frenhinol, mae adroddiad 2009 yn ymchwilio i bynciau sydd yn ein helpu i ddeall yr heriau y mae plant y Lluoedd Arfog yn eu wynebu efallai, pwysau a straen tra bo'r rhiant i ffwrdd neu ddelio â salwch neu anaf rhiant.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld **yma**.

## Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF) – Arolwg Gwrando ar Blant y Lluoedd Arfog

***"Mae 89% o deuluoedd wedi dweud wrthym eu bod yn ystyried gadael y Fyddin oherwydd effaith y mae bywyd y Lluoedd Arfog yn ei gael ar eu plentyn."***

Mae'r canfyddiadau o arolwg 2019 a gyflawnwyd gan yr AFF yn cael eu cynnwys mewn nodyn briffio i awdurdod y Fyddin i'w weld **yma**. Maent yn cynnwys crynodeb mewn bylchau addysgu, yr effaith ar les a llawer mwy.

## Adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog 2018

Fel rhan o'r adolygiad blynyddol Llywodraethu y DU o'i ymrwymiadau i Gyfamod y Lluoedd Arfog, darparwyd data ar lefel cyrhaeddiad o blant y Lluoedd Arfog a phlant nad ydynt yn y Lluoedd Arfog yn Lloegr gan yr Adran Addysg. Roedd ei ganfyddiadau yn cynnwys:

***"Roedd cyrhaeddiad ar gyfartaledd o blant y Lluoedd Arfog ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn is ymysg y rhai hynny sydd yn symud ysgolion nifer o weithiau o'i gymharu â rhai sydd yn fwy sefydlog."***

Mae'r adroddiad llawn i'w weld **yma**.

***"Dw i'n byw wrth ymyl traethau cudd yr RAF.***





NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

# Cymorth ac Adnoddau

## Cyfeiriadur cefnogaeth SSCE Cymru

Gweler Cyfeirlyfr cymorth SSCE Cymru i gael gwybodaeth am sefydliadu ac elusennau sydd yn berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, yn cynnwys unrhyw adnoddau defnyddiol a nodir gan SSCE Cymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

### Adnoddau SSCE Cymru

Gall ysgol newid / teilwra Offer SSCE Cymru i weddu i'w hanghenion. Adnoddau sydd yn berthnasol at ymchwil a thystiolaeth yn cynnwys:

**Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol**
**Templed: Llais disgyblion plant y Lluoedd Arfog**
**Templed: Holiadur Rhiant/Gofalwr**

Gweler y rhestr cyfan o Adnoddau SSCE Cymru **yma**.

### Astudiaethau achos SSCE Cymru

Mae enghreifftiau o arfer dda ar gael ar wefan **SSCE Cymru**.

### Adnoddau SSCE Cymru

**Plant y Lluoedd Arfog - canllawiau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru**
**Ffilm am brofiadau plant y Lluoedd Arfog**
**Ffilm o enghreifftiau o ymarfer da mewn ysgolion**
**Ffilmiau am ddysgu Cymraeg**
**Cylchlythyrau SSCE Cymru**



NODYN: I agor hypergysylltiadau mewn tab Newydd, pwyswch y botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd yna cliciwch ar y ddolen.

SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



## Diolch i'r sefydliadau hynny a roddodd ganiatâd i ddefnyddio eu deunyddiau

**Nid yw SSCE Cymru yn gwneud unrhyw sylwadau ynghylch gwefannau a gwybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon. Cyfeiriwch at Hysbysiadau Preifatrwydd sefydliadau a gyfeirir at i gael gwybodaeth pellach.**

**Hoffem gydnabod ffynhonnell rhai o'r ffotograffau gan Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges a gwefan delweddau amddiffyn yr MOD a gallwch gael gafael ar y drwydded Llywodraeth agored yma. Gall rhai delweddau gynnwys gwybodaeth o'r sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan y drwydded Llywodraeth agored v 3.0.**

### Image references

**Tudalen 1**
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 3**
Chinooks. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016
AS-90. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 4**
AS-90. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 6**
HMS Dragon. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011
Trooping of the colour rehearsal. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 7**
Chinooks. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 8**
HMS Queen Elizabeth. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

**Tudalen 13**
RN Commander welcome home. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 17**
Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

**Tudalen 19**
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 24**
40 Commando Royal Marines Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2014

**Tudalen 27**
Homecoming Scotland. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2013

**Tudalen 31**
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

**Tudalen 42**
RAF 100 Youth Programme. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2017

**Tudalen 50**
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2018

**Tudalen 52**
Royal Welsh Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 55**
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 56**
Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 57**
HMS Endurance. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2007

**Tudalen 61**
Royal Navy, Portsmouth. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2016

**Tudalen 63**
Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

**Tudalen 71**
©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

**Tudalen 83**
Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



**Pecyn Gwaith i Ysgolion**
**SSCE Cymru**